

Adroddiad Cynnydd Blynyddol

30^{ain} Medi 2011

Atodiadau

CYNNWYS

Atodiadau

<i>Atodiad A -</i>	<i>Nid yw'r Atodiad hwn wedi'i gyfieithu</i>
Atodiad B -	Disgrifiad Byr o'r Cynlluniau a Weithredwyd yn 2010/11
Atodiad C -	Gwariant Refeniw 2010/11
Atodiad Ch -	Y Strwythur a'r Broses Gwneud Penderfyniadau
Atodiad D -	Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb
Atodiad Dd -	Blaenoriaethau Trafnidiaeth Ranbarthol TraCC (Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru Awst 2011)

Atodiad A

Adroddiad Monitro Blynyddol 2010/11

Atodiad B

Disgrifiad Byr o'r Cynlluniau a Weithredwyd yn
2010/11

Atodiad B – Cynlluniau a Weithredwyd yn 2010/11

Gweithredwyd y chwe chynllun canlynol yn 2010/11 a derbyniwyd dyraniad a/neu wariant o fwy na £50,000.

Gwella Trafnidiaeth Gymunedol

Derbyniwyd dyraniad o £100,000 ar gyfer Gwella Trafnidiaeth Gymunedol ac estynnwyd gwahoddiad i nifer o sefydliadau ar draws rhanbarth Trac i gyflwyno cynigion ar gyfer yr arian a ddyrannwyd. Gwariwyd cyfanswm o £98,000. Nod y gronfa oedd gwella cyfleusterau ac ehangu eu gwasanaethau trafndiaeth gymunedol wrth gefnogi amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh).

- Gwella hygyrchedd teithio i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau i bob sector o'r gymdeithas;
- Gwella ansawdd ac integreiddio'r system drafndiaeth gyhoeddus yn cynnwys rôl trafndiaeth gymunedol;
- Darparu, hyrwyddo a gwella dulliau teithio cynaliadwy;
- Gwella hygyrchedd;
- Annog teithio cynaliadwy.

Bu i'r sefydliadau isod brynu'r eitemau canlynol gyda'u dyraniad grant:

Cymdeithas Trafnidiaeth Wledig Preseli

Cerbyd MWB diesel 12 sedd, gyda drws llithro ar yr ochr, lliw soled y ffatri, blwch gêr awtomatig, tu mewn sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ardal oedd salŵn cefn wedi'u hinswleiddio'n llawn, lifft mewnol cefn ar gyfer cadair olwyn i fanyleb.

Trafnidiaeth Gymunedol Llanwrtyd

Cerbyd llawr isel 16 sedd "math" Optare Alero, bron yn newydd, gyda lle i o leiaf dwy gadair olwyn, tu mewn i'r cerbyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

Galw'r Gyrrwr Y Drenewydd

Bws mini Ford Transit 17 sedd sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn, gyrru â llaw, lifft ar gyfer cadeiriau olwyn, tu mewn i'r cerbyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

Trafnidiaeth Gymunedol Dolen Teifi

Bws mini 17 sedd cwbl hygyrch – gyda lle i gadair olwyn, gyrru â llaw tu mewn i'r cerbyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, lifft ar gyfer cadeiriau olwyn.

Grŵp Trafnidiaeth Gymunedol Ystwyth

Bws mini 17 sedd cwbl hygyrch, sydd bron yn newydd, gyrru â llaw, tu mewn i'r cerbyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, lifft ar gyfer cadeiriau olwyn gyda lle i gadair olwyn.

Cymorth Gymunedol Llanfair ym Muallt

Meddalwedd cyfrifiadurol a threfnu trafndiaeth.

Llwybr Beicio'r Trallwng i Buttington

Gwnaed dyraniad o £60,000 yn rhaglen 2010/11 ar gyfer y cynllun uchod a'r gwariant terfynol oedd £60,000. Mae'r cynllun yn ffurfio cyswllt newydd (ar gyfer cerdded a beicio) o ganol tref y Trallwng i Buttington yn y dwyrain. Mae'n rhan bwysig o rwydwaith Cerdded a Beicio'r Trallwng. Mae'n cysylltu canolfan hamdden, ysgol uwchradd ac ardal breswyl fawr. Mae'r llwybr yn dilyn llwybr tynnu camlas sy'n bodoli eisoes.



Llwybr Beicio Cardi Bach

Gwnaed dyraniad o £120,000 yn rhaglen 2010/11 ar gyfer y cynllun uchod a'r gwariant terfynol oedd £111,000. Roedd y cynllun yn uwchraddio rhan o'r hen lein reilffordd rhwng Canolfan Bywyd Gwylt Cilgerran ac Ystâd Ddiwydiannol Aberteifi. Roedd y gwaith yn cynnwys lledu'r llwybr troed ar hyd yr Afon Teifi ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr anabl. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan y Ganolfan Bywyd Gwylt a'r Clwb Cerdded i Bobl dros 50 oed. Mae'r arolygon cychwynnol yn nodi bod defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r llwybr. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n ceisio sicrhau arian pellach i ddarparu gwelliannau ychwanegol i amwynderau yn yr ardal.



Llwybr Amldeffnydd Tywyn i Frynchrug

Gwnaed dyraniad gwreiddiol o £150,000 yn rhaglen 2010/11 ar gyfer y cynllun uchod. Roedd hyn yn cwmpasu Cam 1. O ganlyniad i danwariant yn ystod y flwyddyn ariannol, gweithredwyd dau gam pellach ar gyfer y Cynllun Tywyn i Frynchrug - cost derfynol o £496,000. Mae'r cynllun yn darparu llwybr cerdded a beicio diogel rhwng dwy gymuned Tywyn a Brynchrug.



Gwelliannau i Bromenâd Aberystwyth

Gwnaed dyraniad o £192,000 yn rhaglen 2010/11 ar gyfer y cynllun uchod a'r gwariant terfynol oedd £184,000. Roedd y prosiect yn cynnwys: gwaith peirianeg i ddarparu ardal benodol ar gyfer parcio beiciau modur ger y llwyfan bandiau; lle i barcio beiciau gydag arwyddion priodol mewn lleoliadau allweddol ar hyd y promenâd; gwelliannau i gyfleusterau croesi i gerddwyr ger croesfannau sebra (gorchmynion cyfreithiol / rhwystrau); a rhaglen o osod rhwystrau newydd yn lle rhai nad ydynt yn ddiogel ar hyd y promenâd; gwelliannau i balmentydd y promenâd; ac adnewyddu dwy gysgodfan ar y promenâd. Gwnaed gwaith hefyd ar ymarferoldeb darparu lôn benodol i feiciau ar y promenâd.



Llwybr Troed Ceinewydd

Gwnaed dyraniad o £200,000 yn rhaglen 2010/11 ar gyfer y cynllun uchod a'r gwariant terfynol oedd £200,000. Roedd y cynllun yn darparu llwybr diogel i gerddwyr a beicwyr ar hyd y B432 sy'n cysylltu tref Ceinewydd, gyda'i chyfleusterau amrywiol i ymwelwyr, gyda pharc gwyliau mawr. Cyn y cynllun hwn, bu'n rhaid i gerddwyr (yn aml teuluoedd o'r parc gwyliau) gerdded ar hyd y ffordd gerbydau. Mae'r cynllun hwn wedi darparu gwelliant mawr i ddiogelwch.



Atodiad C

Gwariant Refeniw 2010/11

Dadansoddiad o Wariant TraCC 2010/11

Cyllideb Refeniw Ganolog TraCC- G0285			
Disgrifiad	Gwirioneddol £	Croniadau £	Cyfanswm £
<u>Cyflogeion</u>			
Cyflog y Cydlynnydd (yn cynnwys Yswiriant Gwladol / Pensiwn)	46,465.27	0.00	46,465.27
Treuliau Teithio (yn cynnwys rhentu ceir, cardiau trên a chynhaliaeth)	3,140.02	0.00	3,140.02
Swyddog Prosiectau a Rhaglenni (yn cynnwys Yswiriant Gwladol / Pensiwn)	36,795.78	0.00	36,795.78
Treuliau Teithio (yn cynnwys rhentu ceir, cardiau trên a chynhaliaeth)	2,678.80	0.00	2,678.80
<i>Is-gyfanswm</i>	89,079.87	0.00	89,079.87
<u>Cymorth Consortiwm</u>			
Costau swyddfa ganolog / llety (yn cynnwys rhenti, cyfleustodau, ffonau symudol a llinell dir, cymorth clerigol)	12,617.06	131.24	12,748.30
Prynu caledwedd TG	101.46	0.00	101.46
Meddalwedd (yn cynnwys cymorth gwefan ac adnewyddu ffioedd trwyddedau meddalwedd blynnyddol)	3,832.54	0.00	3,832.54
Cyfarfodydd TraCC (costau llogi ystafell a lluniaeth)	2,784.20	505.60	3,289.80
Cyhoeddiadau cyffredinol, hysbysebu a hyrwyddiadau	7,446.10	500.00	7,946.10
Costau cyfieithu	390.00	0.00	390.00
Cymorth gweinyddol	20,000.00	6,230.00	26,230.00
Ffioedd aelodaeth, tanysgrifio a chysylltiad	90.00	205.00	295.00
Mynychu cynadleddau a hyfforddiant	374.80	240.00	614.80
Ceredigion - tâl Adnoddau Dynol i gefnogi TraCC	5,500.00	0.00	5,500.00
Powys - tâl Adnoddau Dynol / Cyfreithiol / Ariannol i gefnogi TraCC			
<i>Is-gyfanswm</i>	53,136.16	7,811.84	60,948.00

Cyllideb Refeniw Ganolog TraCC- G0285

Disgrifiad	Gwirioneddol £	Croniadau £	Cyfanswm £
Cyfanswm Gwariant	142,216.03	7,811.84	150,027.87
<u>Incwm</u>			
Llywodraeth Cynulliad Cymru			-150,000.00
Cyfanswm Incwm	0.00	0.00	-150,000.00
Cyfanswm	142,216.03	7,811.84	27.87

Cynllunio Teithiau Rhanbarthol

Cyllideb Refeniw Ganolog TraCC- G0285			
Disgrifiad	Gwirioneddol £	Croniadau £	Cyfanswm £
<u>Costau Cyflogeion</u>			
Cyflog cydlynedd Cynllunio Teithiau (yn cynnwys YG / Pensiwn)	16,705.36		16,705.36
Treuliau Teithio (yn cynnwys rhentu ceir, cardiau trên a chynhaliaeth)	2,578.86		2,578.86
Swyddog Gweinyddol/Cymorth, Swyddog Cymorth (yn cynnwys YG / Pensiwn)			
Treuliau Teithio (yn cynnwys rhentu ceir, cardiau trên a chynhaliaeth)			
<i>Is-gyfanswm</i>	19,284.22		19,284.22
<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>			
Ffioedd Proffesiynol	4,481.75		4,481.75
Costau Galwadau Ffôn Symudol yn cynnwys Taleb	7.67		7.67
Hyrwyddo a Marchnata	240.00		240.00
<i>Is-gyfanswm</i>	4,729.42		4,729.42
Cyfanswm Gwariant	24,013.64		24,013.64
<u>Incwm</u>			
Llywodraeth Cynulliad Cymru	-24,013.64		-24,013.64
<i>Cyfanswm Incwm</i>	-24,013.64		-24,013.64
Cyfanswm	0.00		0.00

Atodiad Ch

Y Strwythur a'r Broses Gwneud Penderfyniadau

Atodiad Ch – Y Strwythur a'r Broses Gwneud Penderfyniadau

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys:

- Adroddiad TraCC ar gyfer y Grŵp Rheoli 14^{eg} Mai 2010 ar Ddiwygiad Arfaethedig i Strwythur Llywodraethu TraCC
- Atodlen Rheoli Busnes TraCC
- Atodlen Strwythur Cyfarfodydd a Chynrychiolaeth mewn Cyfarfodydd (Awst 2011)
- Dyfyniad o Nodyn Canllaw Rheoli Rhaglen TraCC 2010



Cyfarfod Grŵp Rheoli TraCC

14eg Mai 2010

PWNC: Diwygiad Arfaethedig i Strwythur Llywodraethu TraCC

ADRODDIAD AR GYFER: Penderfyniad

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r cynigion a gyflwynir yn Adolygiad Cynllunio a Chyflenwi Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd gyda'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Bwrdd TraCC wedi derbyn cyflwyniad ar y cynigion (4ydd Rhagfyr 2009) ac mae cynigion yr Adolygiad wedi'u derbyn mewn egwyddor gan Fwrdd TraCC a'r awdurdodau lleol cyfansoddol, er bod rhai pryderon ynglŷn â lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth gymorth y Consortiwm a byddai angen buddsoddi amser swyddogion er mwyn cefnogi'r strwythur newydd. Er hynny, mae'n ymddangos yn briodol ac amserol i addasu a gweithredu'r strwythur model a'r trefniadau gwaith a gyflwynwyd yn Adolygiad Cynllunio a Chyflenwi Trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad ond gan gofio bod TraCC wedi gofyn am adolygiad ffurfiol o'r strwythur (mewn 18 mis o bosibl) i asesu effeithiolrwydd y trefniadau newydd ac ysgogi unrhyw ddiwygiadau dymunol/angenrheidiol.
- 1.2 Cyflwynir Strwythur Llywodraethu (sefydliadol) arfaethedig diwygiedig TraCC yn Nhabl 1, Atodiad A. Mae'r strwythur diwygiedig hwn yn seiliedig ar y Papur Trafod a gyflwynwyd i'r Grŵp Rheoli ar 13eg Tachwedd 2009 ac ar y cyflwyniad dilynol i'r Bwrdd (4ydd Rhagfyr 2009) ac mae'n ceisio addasu ac atgyfnerthu'r hyn sydd eisoes ar waith er mwyn cyflwyno a chefnogi cynigion yr Adolygiad mewn ffordd sy'n briodol i TraCC. Ymddengys yn briodol i sefydlu'r strwythur hwn yn ffurfiol o (neu mor agos â phosibl i) 1af Ebrill 2010. Wrth ragweld y strwythur llywodraethu diwygiedig, mae Grŵp y Rhaglen wedi cwrdd ar un achlysur (mis Ebrill) a byddant yn cwrdd unwaith eto yn ddiweddarach y mis hwn.
- 1.3 Ar adeg pan roddir ffocws ar atgyfnerthu trefniadau partneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol / consortia trafndiaeth ranbarthol, ymddengys ei bod yn gyfle priodol i gymryd camau hefyd i atgyfnerthu gweithio mewn partneriaeth ar lefel ranbarthol a lleol drwy gyflwyno'r strwythur arfaethedig.

2.0 Y Strwythur Arfaethedig

- 2.1 Er mwyn cyflwyno'r argymhellion yn Adolygiad Cynllunio a Chynllunio Trafnidiaeth yng Nghymru Llywodraeth Cynulliad Cymru, dylai strwythur TraCC ddilyn y strwythur canlynol:
- Bwrdd (Cydbwyllgor)
 - Grŵp Rheoli
 - Grŵp y Rhaglen
 - Grŵp Polisi a Chynllunio
 - Grwpiau thematig - yn cynnwys Teithio Cynaliadwy / Dewisiadau Doethach, Trafnidiaeth Teithwyr, Diogelwch
- 2.2 Dylid nodi y bydd y gweithgareddau busnes sy'n cael eu cyflawni gan Weithgor y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni gan Grŵp y Rhaglen (sef rheoli rhaglenni cymeradwy) a'r Grŵp Polisi a Chynllunio (datblygu rhaglenni ar gyfer y dyfodol, datblygu polisiâu rhanbarthol ac ymateb i ymgynghoriadau, monitro a chofnodi cynnydd).
- 2.3 Cyflwynir y strwythur a argymhellir ar gyfer y grŵp yn Nhabl 1, Atodiad A. Er na chyfeirir at y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad, gall TraCC benderfynu sefydlu'r angen am grwpiau o'r fath ar sail ad hoc.

3.0 Aelodaeth a Chynrychiolaeth

- 3.1 Er mwyn galluogi'r strwythur hwn i weithredu'n effeithiol, bydd sicrhau mynychwyr a chyfranogiad rheolaidd a chyson yn hollbwysig. Mae Aelodaeth y Bwrdd wedi bod yn gymharol gyson ac wedi'i diffinio'n glir (drwy'r Cytundeb Cyfreithiol). Fodd bynnag, mae angen ffurfioli aelodaeth swyddogion/cynrychiolaeth awdurdodau lleol ar gyfer pob grŵp – yn arbennig y Grŵp Rheoli, y Grŵp Polisi a Chynllunio a Grŵp y Rhaglen. Gwerthfawrogir bod yna faterion yn ymwneud â goblygiadau adnoddau i awdurdodau lleol ac i Dîm Craidd TraCC (amser / argaeledd staff yn bennaf) a dylid gwneud pob ymdrech i fanteisio ar yr amser a dreulir ar fusnes y consortiwm (e.e. teithio i/o ac yn ystod cyfarfodydd). Dylid annog fideo-gynadledda a chynnal cyfarfodydd 'cefn wrth gefn' pan fydd hynny'n briodol.
- 3.2 Ni ddylid tybio y bydd cynrychiolaeth awdurdodau lleol yng Ngrŵp y Rhaglen ac yn y Grŵp Polisi a Chynllunio yr un peth bob tro. Mae gan y grwpiau hyn swyddogaethau gwahanol ac amlwg o fewn strwythur cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau TraCC. Bydd rhywfaint o orgyffwrdd yn anochel a gallai fod yn briodol i'r ddau grŵp hyn gwrdd ar yr un diwrnod ('cefn wrth gefn').
- 3.3 Mae Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'r bwriad o ddarparu mewnbwn gan Lywodraeth y Cynulliad i waith y Grŵp Rheoli (uwch swyddog drwy wahoddiad) ac mae hefyd yn awgrymu cynrychiolaeth yng Ngrŵp y Rhaglen ac yn y Grŵp Polisi a Chynllunio. Yn ogystal, mae'r Gweinidog yn barod i fynychu un o gyfarfodydd y Bwrdd y flwyddyn, drwy wahoddiad.
- 3.4 Cyflwynir yr aelodaeth a argymhellir ar gyfer pob grŵp yn Nhabl 1, Atodiad A.

4.0 Trefniadau Adrodd

- 4.1 Mae angen i TraCC ffurfioli ei brosesau ar gyfer adrodd ar gynnydd wrth gyflenwi a nodi materion sydd angen eu trafod/datrys. Ceir diffyg eglurder ar hyn o bryd a bydd mynd i'r afael â'r mater hwn yn ofyniad i unrhyw drefniadau newydd sy'n cael eu hysgogi gan Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad neu ddymuniad lleol i wella dulliau cyfathrebu a gallu i wneud penderfyniadau. Fel arfer, mae strwythur arfaethedig TraCC yn adrodd yn y pen draw i Fwrdd TraCC.
- 4.2 Cyflwynir y trefniadau adrodd a argymhellir rhwng grwpiau gwahanol o fewn y strwythur yn Nhabl 1, Atodiad A.

5.0 Trefniadau Gwneud Penderfyniadau

- 5.1 Mae angen i TraCC allu gwneud y penderfyniadau cywir, ar yr adeg gywir, gan y bobl gywir. Mae'r gofyniad i nodi pa benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo i'r grwpiau / lefelau amrywiol o fewn strwythur y Bartneriaeth yn hollbwysig. Mae Cytundeb Cyfreithiol TraCC yn cyflwyno nifer o swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo i Fwrdd TraCC (Cydbwyllgor) gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Mae materion pellach i'w dirprwyo yn llai clir.
- 5.2 Cyflwynir y trefniadau a argymhellir ar gyfer dirprwyo penderfyniadau rhwng grwpiau gwahanol o fewn strwythur TraCC yn Nhabl 1, Atodiad A.
- 5.3 Efallai y bydd angen ystyried adolygu Cytundeb Cyfreithiol TraCC yn sgîl unrhyw ddiwygiadau i drefniadau gwneud penderfyniadau sy'n deillio o Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad a / neu wrth gyflwyno cynigion TraCC.

6.0 Amllder Cyfarfodydd

- 6.1 Mae angen cytuno ar y gofyniad i gwrdd yn unol â swyddogaethau a gallu pob grŵp i wneud penderfyniadau.
- 6.2 Cyflwynir y nifer a argymhellir ar gyfer cynnal cyfarfodydd grŵp o fewn strwythur TraCC yn Nhabl 1, Atodiad A.
- 6.3 Dylai pob partner ddeall y dylai'r agenda ar gyfer holl gyfarfodydd TraCC geisio gwneud y defnydd gorau o amser swyddogion drwy gydbwyso'r broses o rannu gwybodaeth/gweithgareddau adrodd gyda thrafodaeth briodol a'r gofyniad cadarn i wneud penderfyniadau amserol. Dylid rhoi pwyslais o'r newydd ar bartneriaid i gynnal y gweithgareddau / camau gweithredu busnes gofynnol rhwng cyfarfodydd grŵp a bod mewn sefyllfa i adrodd yn ôl ar hyn yng nghyfarfod nesaf y grŵp. Mae hyn yn awgrymu dull effeithiol a chytbwys o ymgymryd â baich gwaith y consortiwm.

7.0 Trefniadau Partneriaeth Perthnasol Eraill

- 7.1 Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cynnwys:
- Partneriaeth Reilffordd Ranbarthol;
 - Grŵp Cyswllt Trafnidiaeth Traws-Ffiniol; a
 - Grwpiau Rhanbarthol y Bartneriaeth Lleihau Anafiadau/Marwolaethau.
- 7.2 Mae TraCC wedi ymateb i'r angen i arwain wrth sefydlu Partneriaeth Reilffordd Ranbarthol a Grŵp Trafnidiaeth Traws-Ffiniol ac i fynd i'r afael â materion penodol sy'n gysylltiedig â'r angen am ymgysylltiad effeithiol gyda sector arbenigol mawr

(rheilffordd) a mynd i'r afael â materion cynllunio trafndiaeth strategol ffiniau traws-genedlaethol (yn arbennig wrth ddatblygu'r CTRh a Strategaeth Reilffordd TraCC). Wrth gyhoeddi ei Gynllun Busnes, disgwylir i'r trefniadau ar gyfer cynrychioli ac adrodd mewn cysylltiad â datblygiad rhanbarthol y Bartneriaeth Lleihau Anafiadau/Marwolaethau gael eu ffurfioli cyn hir.

- 7.3 Mae angen ystyried y trefniadau adrodd ar gyfer y grwpiau hyn oherwydd eu bod y tu allan i'r model a gyflwynwyd yn Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Bartneriaeth Reilffordd Ranbarthol yn unigryw yn strwythur TraCC hyd yma oherwydd bod dau Aelod etholedig yn aelodau o'r grŵp hwnnw.
- 7.4 Yn ogystal, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i TraCC ffurfioli ei gynrychiolaeth mewn Grŵp 'Ymdeimlad o Le' y Cynllun Gofodol (y Grŵp Swyddogion yn flaenorol), cyfarfodydd Gweinidogol a chyfarfodydd traws-ffiniol. Dylai Cadeirydd TraCC gynrychioli ar lefel Weinidogol, gyda chymorth uwch swyddog. Ni ddylid tybio bod angen i staff y Tîm Craidd gynrychioli'r Bartneriaeth ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn oherwydd mae swyddogion awdurdodau lleol eisoes yn eu mynychu ac efallai y gellir lleihau nifer y swyddogion sy'n eu mynychu.

8.0 Gwybodaeth a Thryloywder Trafodion

- 8.1 Mewn cysylltiad â gweithredu cynigion Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad, efallai y bydd TraCC yn dymuno ystyried ei drefniadau ar gyfer mynediad i'w gyfarfodydd a'i wybodaeth. Ar hyn o bryd, dim ond papurau cyfarfodydd y Bwrdd (agenda, y rhan fwyaf o adroddiadau a chofnodion cymeradwy) sy'n cael eu cyhoeddi i'r cyhoedd (drwy'r wefan). Mae'r un peth yn wir am agor ei gyfarfodydd i'r cyhoedd ac mae hyn yn cydymffurfio â'r gofynion o dan ddeddfwriaethau priodol llywodraeth leol sy'n llywodraethu'r prosesau o sefydlu a gweithredu cydbwyllgorau.
- 8.2 Argymhellir bod TraCC yn ystyried ac yn gwneud penderfyniad ffurfiol ar briodoldeb:
- Caniatáu i'r cyhoedd fynychu rhai gweithgorau swyddogion, neu bob un ohonynt – naill ai drwy wahoddiad ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda neu 'fel hawl';
 - Cyhoeddi trafodion rhai gweithgorau swyddogion, neu bob un ohonynt (drwy wefan TraCC); a
 - Rôl rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn y strwythur partneriaeth rhanbarthol – er enghraifft, cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad neu bartneriaid eraill mewn gweithgorau swyddogion, ar lefel y Grŵp Rheoli a'r Bwrdd. Mae SWITCH a chonsortia trafndiaeth rhanbarthol Sewta yn cyfethol o grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau partneriaid yn cynnwys ar lefel Cydbwyllgor.
- 8.3 Dylai swyddogion awdurdodau lleol sicrhau a chadarnhau bod:
- Trefniadau priodol ar waith i ddosbarthu gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd i Aelodau a chydweithwyr eraill o fewn eu hawdurdodau lleol; a
 - Cysylltiadau ar waith (e.e. ar wefan awdurdodau lleol) i bapurau cyfarfodydd Bwrdd TraCC o leiaf a gwefan TraCC (www.tracc.gov.uk).

9.0 Grwpiau Cenedlaethol (Cymru Gyfan)

- 9.1 Dylid nodi, wrth dderbyn y strwythur Rhanbarthol a'r strwythur Cenedlaethol cyfatebol arfaethedig, mae'n rhaid i TraCC nodi'r lefelau priodol o gefnogaeth swyddogion i'r strwythur Cenedlaethol.

9.2 Cyflwynir y grwpiau Cenedlaethol arfaethedig a phresenoldeb TraCC a argymhellir yn Nhabl 2, Atodiad A.

10.0 Argymhellion

10.1 Argymhellir y dylid addasu i'r cynigion a gyflwynwyd yn Adolygiad Cynllunio a Chyflenwi Trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad, bod TraCC yn mabwysiadu'r strwythur a'r trefniadau a gyflwynir yn Nhabl 1, Atodiad A ar (neu mor agos â phosibl i) 1af Ebrill 2010.

10.2 Argymhellir hefyd y dylai TraCC benderfynu neu ail-ddatgan ei sefyllfa mewn cysylltiad â pharagraffau 8.2 a 8.3 uchod.

10.3 Dylai TraCC gadarnhau ei gynrychiolaeth ar grwpiau cenedlaethol a rhanbarthol pwysig eraill (7.4 a 9.0).

10.4 Gallai fod yn ddarbodus hefyd i adolygu Cytundeb Cyfreithiol presennol TraCC er mwyn sicrhau bod y strwythur diwygiedig, y trefniadau adrodd a dirprwyo'r broses gwneud penderfyniadau wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol yn y Cytundeb. Os bydd angen, gallai fod angen addasu'r Cytundeb Cyfreithiol. Deellir y bydd angen gwneud rhywfaint o waith ar y trefniadau cydweithio.

Swyddog Cyswllt:	Ffôn:	Ffacs	Ebost:
Chris Wilson Cydlynnydd TraCC	01970 633431/ 07814 473632		chris.wilson@tracc.gov.uk / chrisw@ceredigion.gov.uk

Rheoli Busnes TraCC

Enw'r Grŵp	Cynrychiolaeth	Amlder cyfarfodydd	Adrodd i...	Rôl / cylch gwaith
<p>Grŵp y Rhaglen</p>	<p>Swyddogion arweiniol awdurdodau lleol sy'n ymgysylltu â/cyfrifol am gyflenwi prosiectau/cynlluniau a TraCC. Swyddog Rhaglen TraCC/staff y Tîm Craidd. Swyddog Llywodraeth y Cynulliad</p>	<p>O leiaf wyth gwaith y flwyddyn a hyd at bob mis os bydd angen.</p>	<p>Grŵp Rheoli</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Derbyn adroddiadau gan Grwpiau Prosiect; • Cydlynu a pharatoi adroddiadau misol i Grŵp Rhaglen Cymru Gyfan ac adroddiadau chwarterol i'r Grŵp Rheoli; • Cyngori'r Grŵp Cynllunio/Polisi a'r Grŵp Rheoli ar newidiadau i'r rhaglen; • Derbyn adroddiadau gan y Grŵp Monitro; • Yn unol â'r pwerau dirprwyedig, awdurdodi cymeradwyaethau cyfnod allweddol a gweinyddu Adolygiadau Porth.
<p>Grŵp Polisi a Chynllunio</p>	<p>Swyddogion arweiniol awdurdodau lleol sy'n ymgysylltu â/cyfrifol am ddatblygu cynlluniau trafndiaeth a chynllunio trafndiaeth a datblygu polisi. Swyddog Polisi a Chynllunio TraCC/staff y Tîm Craidd. Swyddog Llywodraeth y Cynulliad</p>	<p>O leiaf wyth gwaith y flwyddyn.</p>	<p>Grŵp Rheoli</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cydlynu gwaith datblygu strategaethau a pholisïau newydd; • Cydlynu mewnbwn Rhanbarthol i'r adolygiad o Strategaeth Drafndiaeth Cymru a'r Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol; • Datblygu'r cynllun gweithredu trafndiaeth Rhanbarthol; • Derbyn adroddiadau gan y Grwpiau Monitro ac Ymchwil a Datblygu; • Datblygu mentrau newydd; • Cydlynu a fetio Adroddiadau WeITAG; • Cydlynu a drafftio'r Cynllun Busnes

				<p>Rhanbarthol a'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adrodd i'r Grŵp Rheoli ar yr uchod.
<p>Grwpiau Thematig – yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Trafnidiaeth Teithwyr * Teithio Cynaliadwy / Dewisiadau Doethach * Lleihau Anafiadau / Marwolaethau 	<p>Swyddogion priodol awdurdodau lleol gyda Swyddog Polisi a Chynllunio a Swyddog Rhaglen TraCC (pan fydd angen). Cyfethol/gwahodd cynrychiolwyr sefydliadau partner/rhanddeiliaid</p>	<p>O leiaf yn chwarterol</p>	<p>Y Grŵp Polisi a Chynllunio a/neu Grŵp y Rhaglen</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Cynllun Busnes i'w gynnwys yn y Cynllun Busnes Rhanbarthol ac sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Busnes Cenedlaethol ar gyfer y thema honno; • Cysylltu â'r Grŵp Cynllunio Rhanbarthol/y Grŵp Polisi a Grŵp y Rhaglen ac adrodd ar gynnydd a datblygiadau.
<p>Grwpiau Gorchwyl a Gorffen</p>	<p>Swyddogion dethol o'r grwpiau thematig.</p>	<p>Yn ôl yr angen neu fel y diffiniwyd gan natur y dasg a'r amserlenni dan sylw.</p>	<p>Grwpiau Thematig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi'u diffinio gan natur y dasg sy'n cael ei dirprwyo i'r Grŵp ond gan gefnogi rôl a chyfrifoldeb y Grŵp Thematig.
<p>Grwpiau Prosiect Awdurdodau Lleol</p>	<p>Swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol ac yn atebol am gyflenwi cynlluniau sydd wedi'u hariannu drwy Raglen CTRh TraCC. Hefyd ymgynghorwyr a chontractwyr pan fydd yn briodol.</p>	<p>Misol.</p>	<p>Grŵp Rhaglen TraCC</p> <p>Llywodraeth y Cynulliad (Cyllid)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi adroddiad cynnydd misol i Grŵp y Rhaglen; • Cyflwyno anfoneb fisol i Lywodraeth y Cynulliad.

Nodiadau:

- Mae pob grŵp yn atebol i Grŵp Rheoli TraCC yn y pen draw.

- **Mae angen cynrychiolaeth briodol ar weithgorau cyfatebol ar lefel Cymru gyfan.**
- **Ansicrwydd presennol ynglŷn â'r berthynas ag unrhyw ffrydiau gwaith gwasanaethau a rennir cyfatebol.**

Strwythur a Chynrychiolaeth Cyfarfodydd TraCC, Awst 2011

Cyfarfod	Cynrychiolaeth Ofynnol	Cynrychiolaeth Enwebedig	Swyddogaeth/Rôl	Sylwadau
Grwpiau TraCC				
Y Bwrdd	<p>- Aelodau Awdurdodau Lleol (2 fesul pob awdurdod lleol, mae'n rhaid i 1 fod yn ddeiliad y portffolio trafndiaeth a phriffyrdd)</p> <p>- Aelodau o'r Tîm Craidd a swyddogion awdurdodau lleol sydd wedi'u gwahodd i gefnogi Aelodau'r Bwrdd. Cyfarwyddwr Llywodraeth Cymru.</p> <p>- Gwesteion gwahoddedig eraill.</p> <p>- Dylid gwahodd y Gweinidog i fynychu unwaith y flwyddyn.</p>	<p>Aelodaeth Etholedig:</p> <p>- Y Cyng Trevor Roberts (Gwynedd) – Cadeirydd</p> <p>- Y Cyng Gareth Roberts (Gwynedd)</p> <p>- Y Cyng Geraint Hopkins (Powys) – Dirprwy Gadeirydd</p> <p>- Y Cyng Ken Harris (Powys)</p> <p>- Y Cyng Ray Quant (Ceredigion)</p> <p>- Y Cyng Eurfyl Evans (Ceredigion)</p> <p>Yn Cefnogi:</p> <p>- Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC)</p> <p>- Huw Morgan</p>	<p>SWYDDOGAETH ATEBOLRWYDD DEMOCRATAIDD</p> <p>* Cydlynu ymateb Rhanbarthol i strategaethau a chynlluniau trafndiaeth;</p> <p>* Cydlynu ymateb Rhanbarthol i'r Strategaeth Fonitro;</p> <p>* Helpu i ddatblygu strategaethau a pholisïau cenedlaethol;</p> <p>* Cymeradwyo rhaglenni gweithredu trafndiaeth a threfniadau cyflenwi Rhanbarthol;</p> <p>* Cymeradwyo Cynllun Busnes a'i gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cymeradwyaeth;</p>	<p>Cyfarfodydd chwarterol sy'n agored i'r cyhoedd. Wedi'u clericio gan Wasanaethau Democrataidd Ceredigion.</p> <p><u>CAM(AU) GOFYNNOL:</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ystyried presenoldeb Uwch Swyddog Cyllid yr Awdurdod Cyllid (Ceredigion) - a gofyniad a gyflwynir yng Nghytundeb Cyfreithiol TraCC sy'n tyfu mewn pwysigrwydd o ystyried y ffrydiau cyllid grant sy'n dod drwy TraCC ac sy'n galw am graffu fel rhan o swyddogaeth rheoli rhaglen TraCC. 2. Dylai pob awdurdod lleol adolygu ei drefniadau adrodd mewn cysylltiad â llif gwybodaeth rhwng

		<p>(Ceredigion) - Steve Holdaway (Powys) - Dafydd Lewis (Gwynedd)</p> <p>Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru: - Dewi Rowlands (Llywodraeth Cymru)</p>	<p>* Monitro'r gwaith o gyflenwi Cynllun Busnes; * Cyflwyno Adroddiadau Cynnydd Blynyddol; * Cyflwyno cynigion trafndiaeth newydd; * Penderfynu ar drefniadau gweinyddu/ysgrifenyddiaeth y Consortiwm.</p>	<p>TraCC a'i awdurdodau lleol cyfansoddol.</p>
<p>Grŵp Rheoli</p>	<p>- Tri Chyfarwyddwr Awdurdod Lleol/Penaethiaid Gwasanaethau</p> <p>- Cydlynnydd/Rheolwr y Consortiwm, swyddogion gwahoddedig o awdurdodau lleol.</p> <p>- Uwch swyddog o Lywodraeth y Cynulliad (drwy wahoddiad)</p>	<p>Tîm Rheoli: - Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC) – Cadeirydd - Huw Morgan (Ceredigion) - Steve Holdaway (Powys) - Dafydd Lewis (Gwynedd)</p> <p>Dirprwyon: - Richard Hobbs (Powys) - Bleddyn Jones (Ceredigion) - Aled Davies (Gwynedd)</p>	<p>SWYDDOGAETH RHEOLI BUSNES</p> <p>* Cynghori'r Cydbwyllgor ar strategaethau a pholisïau trafndiaeth; * Cynghori'r Cydbwyllgor ar gynigion newydd; * Helpu i ddatblygu strategaethau, cynlluniau trafndiaeth a'r Strategaeth Fonitro; * Datblygu Cynllun Busnes drafft ac adroddiad Cynnydd Blynyddol drafft ar gyfer cymeradwyaeth y Cydbwyllgor; * Rheoli'r Cynllun</p>	<p><u>CAM(AU) GOFYNNOL:</u></p> <ol style="list-style-type: none"> Er mwyn sicrhau parhad a llif gwybodaeth, ystyried a phenderfynu ar ymestyn yr aelodaeth i gynnwys Cadeiryddion: <ul style="list-style-type: none"> - Gweithgor Trafnidiaeth Teithwyr - Grŵp y Rhaglen - Partneriaeth Lleihau Anafiadau/Marwolaethau Rhanbarthol - Partneriaeth Reilffordd Ranbarthol - Gweithgor Teithio Cynaliadwy Ystyried a phenderfynu ar

		Yn Cefnogi: - Ann Elias (Tîm Craidd TraCC) – Rheoli'r Rhaglen	Busnes yn cynnwys cymeradwyaethau cyfnod allweddol ac Adolygiadau'r Porth; * Rheoli swyddogaethau a allai gael eu dirprwyo gan y Cyd-bwyllgor; * Rheoli cymorth gweinyddol/ysgrifenyddi aeth y Consortiwm.	ychwanegu cynrychiolydd o'r Awdurdod Cyllid i gefnogi'r gwaith o graffu ar Gyllidebau ac adroddiadau Ariannol.
Grŵp y Rhaglen	- Un swyddog fesul awdurdod lleol sy'n ymgysylltu â/cyfrifol am gyflenwi a gweinyddu cynllun. - Swyddog Rhaglen TraCC. - Swyddog Cyllid (awdurdod cyllid sy'n cynnal) - Swyddog rhanbarthol Llywodraeth Cymru.	Tîm Rheoli'r Rhaglen: - Ann Elias (Tîm Craidd TraCC) – Cadeirydd - Kevin Lewis (Powys) - Alun G. Davies (Ceredigion) - Dafydd Wyn Williams (Gwynedd) Dirprwyon: - Richard Glynne Jones (Gwynedd) - I'w gadarnhau (Powys) - I'w gadarnhau (Ceredigion) Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru:	SWYDDOGAETH RHEOLI RHAGLEN * Craffu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am brosiectau awdurdodau lleol; * Darparu cynrychiolaeth a pharatoi adroddiadau ar gyfer / gwybodaeth i Grŵp Rhaglen Cymru Gyfan; * Paratoi adroddiadau chwarterol i Grŵp Rheoli a Bwrdd TraCC; * Cynghori'r Grŵp Cynllunio/Polisi a'r Grŵp Rheoli ar newidiadau i'r rhaglen; * Darparu cyngor,	<u>CAM(AU) GOFYNNOL:</u> 1. Cadarnhau enwau dirprwyon awdurdodau lleol 2. Ystyried cynnwys cynrychiolydd o'r Awdurdod Cyllid (Ceredigion) i gefnogi'r broses o graffu gwybodaeth ariannol (hawliadau ac ati).

		<p>- David Hern (Llywodraeth Cymru)</p>	<p>gwybodaeth a chymorth i Aelodau etholedig TraCC;</p> <p>* Ymateb i geisiadau am wybodaeth benodol ychwanegol am brosiectau gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol cyfansoddol a sefydliadau eraill;</p> <p>* Yn unol â'r pwerau dirprwyedig, awdurdodi cymeradwyaethau cyfnod allweddol a gweinyddu Adolygiadau'r Porth;</p> <p>* Monitro ac adolygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chynnydd yn erbyn targedau cytûn.</p>	
<p>Y Grŵp Polisi a Chynllunio</p>	<p>- Un neu ddau swyddog fesul awdurdod lleol sy'n ymgysylltu â/cyfrifol am ddatblygu cynllun trafndiaeth a chynllunio trafndiaeth a datblygu polisi a</p>	<p>Tîm Polisi a Chynllunio:</p> <p>- Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC) – Cadeirydd</p> <p>- Phil Jackson (Powys)</p> <p>- Gareth Roberts</p>	<p>SWYDDOGAETH POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>* Datblygu strategaethau a pholisïau trafndiaeth rhanbarthol newydd;</p> <p>* Cydlynu mewnbwn</p>	<p>CAM(AU) GOFYNNOL:</p> <p>1. Er mwyn sicrhau parhad a llif gwybodaeth, a chyflwyno prosiectau dulliau / thematig amrywiol, ystyried a phenderfynu ar ymestyn yr aelodaeth</p>

	<p>materion cysylltiedig.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Swyddog Tîm Craidd TraCC - Swyddog rhanbarthol Llywodraeth Cymru 	<p>(Ceredigion)</p> <ul style="list-style-type: none"> - I'w gadarnhau (Gwynedd) <p>Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> - David Hern (Llywodraeth Cymru) <p>Drwy wahoddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghorwyr sy'n ymgysylltu â chomisiynau Trac, awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru. 	<p>Rhanbarthol i'r adolygiad o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a pholisïau a dogfennau cynllunio trafndiaeth pwysig eraill;</p> <ul style="list-style-type: none"> * Datblygu a pharatoi'r Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol blynyddol (yn cynnwys Amserlenni Cyflenwi ar gyfer Grant y CTRh a'r Grant Diogelwch ar y Ffyrdd); * Cydlynu a fetio Adroddiadau Wel TAG, modelau trafndiaeth, asesiadau effaith amgylcheddol a chydraddoldebau ar gyfer cynlluniau trafndiaeth; * Datblygu a rheoli ymgynghoriadau, gwybodaeth a chyfathrebiadau'r Consortiwm; * Cydlynu neu ddarparu ymatebion yn uniongyrchol i'r Consortiwm ar ymgynghoriadau a cheisiadau am 	<p>i gynnwys Cadeiryddion:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gweithgor Trafnidiaeth Teithwyr - Grŵp y Rhaglen - Partneriaeth Lleihau Anafiadau/Marwolaethau Rhanbarthol - Partneriaeth Reilffordd Rhanbarthol - Gweithgor Teithio Cynaliadwy <p>2. Bydd angen presenoldeb a / neu gyfraniadau gan Unedau Cynllunio Busnes/Rheoli Perfformiad awdurdodau lleol - e.e. wrth baratoi gwybodaeth rheoli perfformiad rhanbarthol ac asesiadau effaith cydraddoldeb. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyswllt hwn wedi'i sefydlu. Dylid rhoi cysylltiadau'r awdurdodau lleol i Gydlynnydd Trac a bydd angen rhoi gwybodaeth i'r swyddogion ynglŷn</p>
--	---	---	--	--

			<p>dystiolaeth;</p> <p>* Cydlynu proses casglu data ranbarthol, monitro ac adolygu</p> <p>Dangosyddion</p> <p>Perfformiad Allweddol trafniadaeth ranbarthol a chynnydd yn erbyn targedau cytûn;</p> <p>* Datblygu a pharatoi Adroddiad Cynnydd Blynyddol y CTRh;</p> <p>* Darparu cynrychiolaeth ac ymgymryd â'r gwaith o baratoi adroddiadau ar gyfer/er gwybodaeth i Grŵp Polisi a Chynllunio Cymru Gyfan gyda'r lefel briodol o adrodd;</p> <p>* Paratoi adroddiadau chwarterol i Grŵp Rheoli a Bwrdd TraCC.</p>	<p>â'r rôl hon.</p> <p>3. Weithiau bydd angen i swyddogion o'r Uned Gynllunio (e.e. Cynllun Datblygu Lleol a'r Uned Polisi Corfforaethol yr awdurdodau lleol fod yn bresennol, dylid rhoi cysylltiadau'r awdurdodau lleol i Gydlynnydd Trac.</p> <p>4. Dylai awdurdodau lleol TraCC allu dangos eu bod wedi defnyddio WeITAG ar gyfer pob prosiect sydd wedi'u cynnwys yn rhaglen ranbarthol flynyddol Grant Cyfalaf y CTRh a Grant Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd. Nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd ac mae angen iddo ddechrau digwydd, p'un a ydym yn hoffi hynny ai peidio. Mae angen datblygu sgiliau, arbenigedd a gallu mewnol awdurdodau lleol. Mae arian</p>
--	--	--	---	--

				rhanbarthol ar gael i helpu gyda'r rhannau datblygu cynllun hynny sy'n berthnasol i WeITAG.
Gweithgor Trafnidiaeth Teithwyr	<ul style="list-style-type: none"> * Rheolwyr Uned Trafnidiaeth Teithwyr Awdurdodau Lleol * Cydlynnydd/Rheolwr TraCC * Swyddog Rhaglen TraCC (pan fydd angen) * Cydlynnydd Cynllun teithio Rhanbarthol TraCC (pan fydd angen) * Cynrychiolwyr Sector Trafnidiaeth Gymunedol yng Nghanolbarth Cymru * Y gallu i Gyfethol/gwahodd cynrychiolwyr o sefydliadau partner/rhanddeiliaid 	<p>Aelodaeth reolaidd:</p> <ul style="list-style-type: none"> * John Forsey (Powys) – Cadeirydd * Shan Witts (Ceredigion) * Gareth Roberts (Ceredigion) * Gerwyn Jones (Gwynedd) * Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC) * Sarah Leyland Jones (PAVO) * Rod Bowen (CAVO) * David Hall (Llywodraeth Cymru) * Cyfarwyddwr CTA Cymru <p>Yn achlysurol/drwy wahoddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Rheolwr Rhaglen TraCC 	<p>GWEITHGOR THEMATIG/MODDOL</p> <p>Yn unol â chanlyniadau Adolygiad Cynllunio a Chyflenwi Trafnidiaeth yng Nghymru, Llywodraeth y Cynulliad, cytunwyd mai diben y 'Gweithgorau Thematig/Moddol' ar lefel Rhanbarthol fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Datblygu Cynllun Busnes [ar gyfer y dull hwnnw] i'w gynnwys yng Nghynllun Busnes y Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Busnes Cenedlaethol [Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru] ar gyfer y thema honno; * Cysylltu â'r Grŵp Cynllunio Rhanbarthol/y Grŵp Polisi a Grŵp y Rhaglen ac adrodd ar gynnydd a datblygiadau 	<p>SYLWADAU:</p> <p>Ceir rhywfaint o orgyffwrdd naturiol rhwng datblygu polisi a datblygu trafndiaeth – e.e. datblygu safonau rhanbarthol, trafodaethau ar lwybrau ac ati</p> <p>Mae angen i'r Grŵp lywio/rheoli prosiectau trafndiaeth teithwyr rhanbarthol ar y cyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Darparu gwybodaeth (e.e. prosiect <i>Omnitimes</i>) * Rhaglen gyllid y seilwaith – e.e. cyfleusterau newydd neu well i gyfnewidfeydd (gorsafoedd bysiau a threnau) – darparu gwarchodfan bysiau, amser gwirioneddol ac ati <p>Mae natur gymhleth bresennol y diwydiant rheilffordd a swm y gwaith sy'n gysylltiedig â'r rheilffordd yn cyfiawnhau Is-Grŵp Rheilffordd ar wahân ond sydd wedi'i gysylltu â'r</p>

		<p>* Cydlynnydd Cynllun Teithio Rhanbarthol TraCC</p> <p>* Swyddog Datblygu Rheilffordd, Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian</p> <p>* Swyddog Datblygu Rheilffordd, Fforwm Lein Calon Cymru</p> <p>* Traveline Cymru</p> <p>* Ymgynghorwyr sy'n gysylltiedig â chomisiynau Trac, awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru</p>		<p>awdurdod lleol/Tîm Craidd TraCC yn unig – gallai hyn fod yn 'rhith'.</p> <p>Mae'n debyg bod rhywfaint o gwmpas i wahodd cynrychiolwyr, yn rheolaidd neu'n achlysurol o:</p> <p>* Bus Users UK</p> <p>* Cwmnïau gweithredu Bysiau</p> <p>* Trenau Arriva Cymru</p> <p>* Swyddogion awdurdodau lleol o siroedd cyfagos – Swydd Amwythig, Swydd Henffordd, Sir Gaerfyrddin yn benodol</p> <p>CAM(AU) GOFYNNOL:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae angen penderfynu ar y cydbwysedd rhwng: <ol style="list-style-type: none"> a. Materion gweithredol - h.y. a all y grŵp hwn helpu i reoli'r broses o gyflenwi prosiectau ar y cyd - drwy raglenni Trac a raglenni Cyfalaf eraill a chrynhoi arian Refeniw o bosibl;
--	--	--	--	---

				<p>b. Fforwm ar gyfer trafod – i drafod materion sy'n peri pryder a rhannu arfer da;</p> <p>c. Llywio agenda polisi trafndiaeth teithwyr rhanbarthol, lleol a chenedlaethol - pennu safonau a rennir (e.e. darparu gwybodaeth, cyfleusterau aros am fysiau, blaenoriaethu hierarchaeth llwybrau a nifer y gwasanaethau cysylltiedig, trefniadau tocynnau ar y cyd rhwng gweithredwyr a dulliau trafndiaeth gyhoeddus, defnyddio technoleg bresennol Smartcard ac ati); a</p> <p>Ch. Defnyddio'r uchod i gyd i</p>
--	--	--	--	---

				ddatblygu cynigion i'w cynnwys mewn cynlluniau/cynigion cyllid.
Gweithgor Teithio Cynaliadwy	<p>* Cydlynnydd Cynllun Teithio Rhanbarthol TraCC</p> <p>* Swyddogion awdurdodau lleol sy'n hyrwyddo cynlluniau corfforaethol, ardal neu gynlluniau teithio eraill/mesurau cynllunio teithio</p> <p>* Swyddogion awdurdodau lleol sy'n hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy (beicio, cerdded, trafndiaeth gyhoeddus, rhannu ceir ac ati).</p>	<p>* Anthea Jones (Powys) – Cadeirydd</p> <p>* Meleri Edwards (Tîm Craidd TraCC)</p> <p>* Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC)</p> <p>* Pauline Chapman-Young (Powys)</p> <p>* Katy Spain/Rachel Thomas (Ceredigion)</p> <p>* Richard Glynn Jones (Gwynedd)</p> <p>* Glyn Evans (Sustrans)</p>	<p>GWEITHGOR THEMATIG/MODDOL</p> <p>Yn unol â chanlyniadau Adolygiad Cynllunio a Chyflenwi Trafnidiaeth yng Nghymru, Llywodraeth y Cynulliad, cytunwyd mai diben y 'Gweithgorau Thematig/Moddol' ar lefel Ranbarthol fyddai:</p> <p>* Datblygu Cynllun Busnes [ar gyfer y dull hwnnw] i'w gynnwys yng Nghynllun Busnes y Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol sy'n cydfynd â'r Cynllun Busnes Cenedlaethol [Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru] ar gyfer y thema honno;</p> <p>* Cysylltu â'r Grŵp Cynllunio Rhanbarthol/y Grŵp Polisi a Grŵp y Rhaglen ac adrodd ar gynnydd a datblygiadau</p>	<p>SYLWADAU:</p> <p>Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd diweddar.</p> <p>Roedd cynrychiolaeth anghyson mewn cyfarfodydd pan oeddent yn cael eu cynnal ac ni chafwyd llawer o gytundeb ar ddatblygu a chydreoli prosiectau a rennir.</p> <p>Nid yw tair thema benodol/unigol o reidrwydd yn helpu – h.y. cerdded a beicio yn cael eu cynnwys fel un pwnc, a chynllunio teithio a thrafnidiaeth gyhoeddus (cyf Gweithgor Trafnidiaeth Teithwyr TraCC uchod). Mae'r cysylltiadau rhwng y tri maes hyn hwyrach yn wan ac mae angen mwy o gydweithio er</p>

				<p>mwyn cyflawni'r 'darlun mawr' (h.y. newid moddol gweladwy a mesuradwy).</p> <p>Mae angen clir i ddefnyddio'r hyn y cytunwyd arno yn CTRh TraCC o dan y thema hon i ddatblygu rhaglen ranbarthol wedi'i chydlynu a'i thargedu'n well i'w chynnwys yng Nghynllun Cyflenwi TraCC.</p> <p>Mae angen edrych y tu hwnt i syniadau prosiect unigol a meddwl mewn ffordd fwy strategol - symud i ffwrdd o gynlluniau unigol i lwybr cynllunio mwy cyfannol.</p>
<p>Partneriaeth Reilffordd Ranbarthol</p>	<p>* Swyddogion a chynrychiolwyr sefydliadau sy'n cymryd rhan ym mhrosesau polisïau, cynllunio, ariannu a chyflenwi gwasanaethau rheilffordd. * Swyddogion ac Aelodau sy'n</p>	<p>Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC) - Cadeirydd Gareth Roberts (Ceredigion) Marc Lewis (Powys) Y Cyng Trevor Roberts (Gwynedd) Y Cyng Mansel</p>	<p>GWEITHGOR THEMATIG / MODDOL: Yn unol â chanlyniadau Adolygiad Cynllunio a Chyflenwi Trafnidiaeth yng Nghymru, Llywodraeth y Cynulliad, cytunwyd mai diben y 'Gweithgorau Thematig/Moddol' ar lefel Ranbarthol fyddai:</p>	<p>SYLWADAU: Yn cynnwys cynrychiolaeth aelodau: * Y Cyng Trevor Roberts (Gwynedd) – Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Lein Arfordir y Cambrian; ac * Y Cyng Mansel Williams (Cyngor Swydd Amwythig – Cadeirydd Pwyllgor Rheilffordd Amwythig i</p>

	<p>gysylltiedig â chasglu a chyfleu safbwyntiau defnyddwyr rheilffordd.</p>	<p>Williams (Swydd Amwythig)</p> <p>Gyda chynrychiolwyr o:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Cyngor Swydd Amwythig * Grŵp Nwyddau Cymru * Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian * Fforwm Lein Calon Cymru * Trenau Arriva Cymru * Network Rail * Llywodraeth Cymru * Rheolwr, Tîm Rheilffordd a Swyddfa Ranbarthol TrawsCambria * Ffocws Teithwyr <p>Drwy wahoddiad yn unig:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Grwpiau defnyddwyr rheilffordd – e.e. SARPA, HOWLTA 	<p>* Datblygu Cynllun Busnes [ar gyfer y dull hwnnw] i'w gynnwys yng Nghynllun Busnes y Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol sy'n cydfynd â'r Cynllun Busnes Cenedlaethol [Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru] ar gyfer y thema honno.</p> <p>Cysylltu â'r Grŵp Cynllunio Rhanbarthol/y Grŵp Polisi a Grŵp y Rhaglen ac adrodd ar gynnydd a datblygiadau.</p>	<p>Aberystwyth).</p> <p>Bu i'r grŵp hwn drafod materion trafndiaeth teithwyr traws-ffiniol.</p> <p>Mae sicrhau cynrychiolaeth reolaidd gan Dîm Rheilffordd Llywodraeth Cymru a Network Rail yn broblem nad ydym wedi llwyddo i'w datrys hyd yma.</p> <p>Mae angen i'r Bartneriaeth ddod yn fwy effeithiol oherwydd ar hyn o bryd mae'n fforwm drafod i raddau helaeth ac nid yw o reidrwydd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu neu gyflenwi polisïau ariannu.</p>
Partneriaeth Lleihau		Cynrychiolaeth	GWEITHGOR	SYLWADAU:

<p>Anafiadau/ Marwolaethau Rhanbarthol</p>		<p>awdurdodau lleol (cyfarfod cyntaf 29^{ain} Mehefin 2011):</p> <ul style="list-style-type: none"> * Richard Hobbs (Powys) – Cadeirydd * Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC) * Sarah Morris (Powys) * Tony Caine (Powys) * Gareth Roberts * Kevin Aldred (Ceredigion) * Rachel Thomas (Ceredigion) Colin Jones (Gwynedd) – anfonwyd ymddiheuriadau <p>Cynrychiolwyr o:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Llywodraeth Cymru (Meryl James) * Partneriaeth Go Safe (Jim Moore) * Yr Heddlu * Gwasanaeth Tân ac Achub * Network Rail 	<p>THEMATIG / MODDOL:</p> <p>Yn unol â chanlyniadau Adolygiad Cynllunio a Chyflenwi Trafnidiaeth yng Nghymru, Llywodraeth y Cynulliad, cytunwyd mai diben y ‘Gweithgorau Thematig/Moddol’ ar lefel Ranbarthol fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Datblygu Cynllun Busnes [ar gyfer y dull hwnnw] i’w gynnwys yng Nghynllun Busnes y Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol sy’n cydfynd â’r Cynllun Busnes Cenedlaethol [Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru] ar gyfer y thema honno. <p>Cysylltu â’r Grŵp Cynllunio Rhanbarthol/y Grŵp Polisi a Grŵp y Rhaglen ac adrodd ar gynnydd a datblygiadau.</p>	<p>Cwmpasu dwy ardal yr heddlu, gwasanaethau ambiwlans a’r gwasanaethau tân ac achub.</p> <p>Cafwyd nifer uwch o bosibl o gynrychiolwyr o awdurdodau lleol yn y cyfarfod cyntaf – gallai fod yn gyfle i rannu cynrychiolaeth a lleihau niferoedd yn y dyfodol.</p>
---	--	---	--	--

		* ROSPA		
Grwpiau Cymru Gyfan				
Grŵp y Rhaglen	<ul style="list-style-type: none"> * Cadeirydd Grŵp Rhaglen TraCC * Cefnogwyd gan Swyddog Cyllid yr awdurdod lleol 	<p>Cynrychiolaeth reolaidd hyd yma:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Ann Elias (Tîm Craidd TraCC) * Rhian Thomas (Ceredigion) 	<p>SWYDDOGAETH RHEOLI / CYFLENWI'R RHAGLEN</p> <ul style="list-style-type: none"> * Derbyn adroddiadau cynnydd gan Grwpiau Rhanbarthol y Rhaglen a pharatoi adroddiadau chwarterol i Grŵp Trafnidiaeth Cymru Gyfan; * Cynghori Grŵp Trafnidiaeth Cymru Gyfan ar ddsbarthu cyllid; * Monitro cynnydd yn erbyn y proffil gwariant a chynghori Grŵp Trafnidiaeth Cymru Gyfan am unrhyw lithriant /gorwariant; * Awdurdodi cymeradwyaethau cyfnod allweddol a gweinyddu Adolygiadau'r Porth. 	<p>CAM(AU) GOFYNNOL:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ystyried a ddylai Cyfarwyddwr/ Pennaeth Gwasanaethau awdurdod lleol fynychu yn ogystal â Chadeirydd Gweithgor TraCC. Mae CTRh eraill yn cynnig cynrychiolaeth uwch swyddog awdurdod lleol yn ogystal â chynrychiolydd o Dîm Craidd CTRh.
Grŵp Polisi a Chynllunio	<ul style="list-style-type: none"> * Cadeirydd Grŵp Polisi a Chynllunio 	<p>Cynrychiolaeth reolaidd hyd yma:</p>	<p>SWYDDOGAETH POLISI A</p>	<p>CAM(AU) GOFYNNOL:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ystyried a ddylai

	<p>TraCC * Cefnogwyd gan Swyddog polisi/strategaeth awdurdod lleol</p>	<p>* Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC)</p>	<p>CHYNLLUNIO * Sicrhau cysondeb rhwng y cynllun gweithredu cenedlaethol, y cynlluniau gweithredu rhanbarthol a'r Cynlluniau Gofodol; * Datblygu strategaethau a pholisïau newydd; * Paratoi strategaethau a chynlluniau trafndiaeth ar gyfer Grŵp Trafnidiaeth Cymru Gyfan; * Drafftio diwygiadau i ganllawiau'r cynllun trafndiaeth; * Fetio mentrau newydd a rhoi cyngor ar sut y dylid eu hintegreiddio i'r cynlluniau gweithredu cenedlaethol neu ranbarthol.</p>	<p>Cyfarwyddwr/ Pennaeth Gwasanaethau awdurdod lleol fynychu yn ogystal â Chadeirydd Gweithgor TraCC. Mae CTRh eraill yn cynnig cynrychiolaeth uwch swyddog awdurdod lleol yn ogystal â chynrychiolydd o Dîm Craidd CTRh.</p>
<p>Grŵp Rheilffordd</p>	<p>* Prif Swyddog enwebedig awdurdod lleol TraCC</p>	<p>Cynrychiolaeth reolaidd hyd yma: * Chris Wilson (Tîm Craidd TraCC) * Marc Lewis (Powys)</p>	<p>SWYDDOGAETHAU POLISI, CYNLLUNIO A CHYFLENWI * Cydlynu gweithgareddau ar draws Cymru; * Datblygu polisïau gyda'r Grŵp Cynllunio/Polisi</p>	<p>SYLWADAU: Mae gwybodaeth a phrofiad o faterion rheilffordd - rhanbarthol, cenedlaethol a'r ffordd mae'r diwydiant rheilffordd yn gweithio yn hollbwysig. Mae cynrychiolaeth gyson</p>

			<p>Rhanbarthol a Lleol; * Datblygu rhaglenni gyda'r Grŵp Rhaglen Rhanbarthol a Chenedlaethol; * Adrodd ar gynnydd a datblygiadau i Grŵp Trafnidiaeth Cymru Gyfan; * Cyflwyno Cynllun Busnes Cenedlaethol thematig blynyddol ar gyfer cymeradwyaeth Grŵp Trafnidiaeth Cymru Gyfan; * Helpu'r Grŵp Monitro i gasglu data.</p>	<p>hefyd yn hollbwysig – rydym weithiau, o ganlyniad i ymrwymadau gwaith eraill yn cael blaenoriaeth ac mae hyn yn golygu nad oes cynrychiolydd ar gael i fynychu cyfarfodydd pwysig.</p> <p>CAM(AU) GOFYNNOL:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cadarnhau / ystyried a ddylai Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaethau awdurdod lleol fynychu yn ogystal â Chadeirydd Gweithgor TraCC . Mae CTRh eraill yn cynnig cynrychiolaeth uwch swyddog awdurdod lleol yn ogystal â chynrychiolydd o Dîm Craidd y CTRh.
<p>Partneriaeth Lleihau Anafiadau/ Marwolaethau</p>	<p>Uwch swyddog awdurdod lleol yn cymryd rhan mewn gwaith cynllunio a rheoli gweithgareddau diogelwch ar y ffordd awdurdod priffyrdd lleol</p>	<p>Cynrychiolaeth enwebedig TraCC: * Richard Hobbs (Powys)</p>	<p>SWYDDOGAETHAU POLISI, CYNLLUNIO A CHYFLENWI</p> <p>* Cydlynu gweithgareddau ar draws Cymru * Datblygu polisiau gyda'r Grŵp Cynllunio/Polisi Rhanbarthol a</p>	<p>SYLWADAU: Richard Hobbs i ddarparu sylwadau.</p>

			<p>Chenedlaethol;</p> <ul style="list-style-type: none"> * Datblygu rhaglenni gyda'r Grŵp Rhaglen Rhanbarthol a Chenedlaethol; * Adrodd ar gynnydd a datblygiadau Grŵp Trafnidiaeth Cymru Gyfan; * Cyflwyno Cynllun Busnes Cenedlaethol thematig blynyddol i Grŵp Trafnidiaeth Cymru Gyfan i gael cymeradwyaeth; * Helpu'r Grŵp Monitro i gasglu data. 	
Cyrrff Rhanbarthol neu Genedlaethol Eraill y mae Tîm Craidd TraCC wedi/yn eu cynrychioli				
Partneriaeth Ffyrdd/Rheilffyrdd (Network Rail)				
Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian				
Grŵp Rheoli Lein Calon Cymru				
Pwyllgor Cyswllt Lein Arfordir y Cambrian				
Pwyllgor Lein Amwythig i Aberystwyth				
Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru				

Grwpiau Cynlluniau Gofodol				
Bwrdd Partneriaeth Canol Cymru				
Grŵp Cynghori Trafnidiaeth CLILC				
Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru				
Fforwm Economaidd Canol Cymru				
Partneriaeth Dwristiaeth Canolbarth Cymru				
Grŵp Prosiect Tocynnau Smartcards Consesiynol Cymru Gyfan				

Dyfyniad o Nodyn Canllaw Rheoli Rhaglen TraCC, 2010


2.0	Rheoli Rhaglen Gyfalaf Gymeradwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh)
-----	--

Trefniadau Rheoli

- 2.1 Argymhellir yn gryf bod pob awdurdod lleol yn sefydlu tîm prosiect mewnol i reoli'r prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Raglen Cyfalaf Grant a Refeniw CTRh TraCC. Dylai'r tîm prosiect gasglu, cyflwyno a diweddarau'r wybodaeth ariannol a pherfformiad perthnasol (cynnydd y cynllun). Yn arbennig, bydd angen i dimau prosiect awdurdodau lleol nodi a chofnodi unrhyw gynlluniau sy'n 'methu' a fydd yn cyflwyno 'risgiau' i'r broses o gyflenwi rhaglen Grantiau gyffredinol CTRh TraCC.
- 2.2 Ar gyfer Tîm Craidd TraCC, mae'r Grŵp Rheoli (a'r Bwrdd) wedi rhoi swydd y Swyddog Rhaglenni i Ann Elias, Swyddog Prosiectau a Rhaglenni TraCC, i weithredu fel Swyddog Rhaglenni a helpu'r awdurdodau lleol i reoli eu dulliau cyflenwi.
- 2.3 Mae TraCC wedi sefydlu Grŵp y Rhaglen i swyddogion. Bydd y Grŵp yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ond bydd angen iddynt gwrdd mor aml ag y bydd angen er mwyn sicrhau bod penderfyniau amserol a chytbwys yn cael eu gwneud ynglŷn â chyflenwi rhaglenni cyllid rhanbarthol cymeradwy. Mae'n rhaid i bob prosiect ddarparu adroddiadau misol ar berfformiad a gwybodaeth ariannol yn y fformat a nodir o dan Dermau ac Amodau Grant Llywodoraeth Cymru. Bydd y grŵp yn craffu'r adroddiadau hyn a bydd unrhyw faterion y bydd angen eu datrys yn cael eu nodi ac yn destun penderfyniad gan y Grŵp neu argymhelliad gan Grŵp Rheoli TraCC. Bydd pob penderfyniad yn cael ei gofnodi a rhoddir gwybodaeth ar ganlyniad y broses gwneud penderfyniadau i bob awdurdod lleol, Grŵp Rheoli TraCC, y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd.

Rôl Grŵp y Rhaglen yw:

- Derbyn gwybodaeth gyfredol ar berfformiad gan bob awdurdod lleol ar gyfer pob un o'u prosiectau sy'n cael eu hariannu gan eu CTRh – i'w darparu yn y fformat safonol erbyn 15^{fed} diwrnod y mis, fan bellaf;
- Craffu'r wybodaeth a ddarparwyd ac ystyried unrhyw risgiau neu broblemau sy'n effeithio ar y gwaith o reoli'r dull o gyflenwi'r rhaglenni cyllid rhanbarthol cyffredinol a cheisio canfod atebion i'r problemau hyn;
- Yn unol â phwerau dirprwyedig, awdurdodi cymeradwyaethau Cyfnod Allweddol a gweinyddu Adolygiadau'r Porth;
- Yn unol â phwerau dirprwyedig, ystyried a gwneud penderfyniadau neu argymhellion ar ail-ddyrannu arian y flwyddyn o fewn dyraniad pob awdurdod lleol neu i un o awdurdodau lleol eraill TraCC;
- Ystyried a chymeradwyo unrhyw geisiadau am newidiadau i'r rhaglenni cyllid rhanbarthol cymeradwy;
- Cyflwyno'r wybodaeth uchod i Grŵp Rheoli TraCC a chanfod atebion i unrhyw broblemau sydd heb eu datrys; a
- Adrodd yn ôl i'r Bwrdd (drwy'r Grŵp Rheoli).



Ffigur 1 Diagram o drefniadau gwneud penderfyniadau ac adrodd TraCC.

- 2.4 Mewn achosion pan fydd angen gwneud penderfyniadau ar ail-ddyrannu cyllid o fewn dyraniad cymeradwy pob un o awdurdodau lleol TraCC, neu rhwng dyraniad un o awdurdodau lleol TraCC ac un arall, mae Grŵp y Rhaglen yn dilyn y cynllun dirprwyo canlynol yn seiliedig ar drothwyon ariannol.

Trothwy (£000oedd)	Cam Gweithredu
Llai na £100	Grŵp y Rhaglen sy'n penderfynu lle byddant yn ail-ddyrannu'r cyllid ac yn hysbysu'r Grŵp Rheoli o'u penderfyniad ac yn hysbysu Cadeirydd y Consortiwm.
Rhwng £100 a £500	Mae Grŵp y Rhaglen yn gwneud argymhelliad i'r Grŵp Rheoli wneud penderfyniad ac yn hysbysu Cadeirydd y Consortiwm.
Dros £500	Mae Grŵp y Rhaglen yn gwneud argymhelliad i'r Grŵp Rheoli i ddechrau (a hysbysu Cadeirydd y Consortiwm) ac yna i'r Bwrdd, er mwyn i'r Aelodau wneud penderfyniad.

Tabl 3 Trothwyon Cymeradwy a Ddefnyddir yn y Broses Gwneud Penderfyniadau

- 2.5 Ar bob lefel, dylid hysbysu Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn ag unrhyw newid i'r Rhaglen gymeradwy. Rhagwelir y bydd angen cyfeirio penderfyniadau sy'n ymwneud â chynlluniau sy'n costio mwy na £5 Miliwn yn uniongyrchol i Grŵp y Rhaglen Genedlaethol gymeradwy, i gael eu cymeradwyaeth.

Atodiad D

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Atodiad D

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

1.1 Cyflwyniad

Paratowyd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn gan TraCC ar weledigaeth, blaenoriaethau ac amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yw Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol rhanbarth Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys siroedd Ceredigion, Powys a rhan o Wynedd (Meirionnydd gynt) ac mae'n cynnwys rhannau o Barciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog. Mae'r Consortiwm yn ceisio cydweithio gyda'i bartneriaid i gyflenwi gwelliannau i'r system drafnidiaeth i mewn ac allan o ranbarth TraCC.

Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol gyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh). Cyflwynwyd y CTRh i Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2009.

Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn nodi bod "Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ffordd o archwilio a dadansoddi ein gwasanaethau, polisïau a'n strategaethau sy'n nodi effeithiau presennol a phosibl ar grwpiau penodol o bobl, ac weithiau unigolion – ac mae'n ein galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys y gellir eu cefnogi a'u cyhoeddi".

Ysgrifennwyd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn fel rhan o ymrwymiad TraCC i gydymffurfio â dyletswyddau'r sector cyhoeddus ac i amlygu problemau er mwyn helpu i'w hunioni yn y dyfodol. Mae'r asesiad yn ystyried effeithiau rhyw, cenedl, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu greddo ac oedran.

Yn unol â Llywodraeth Cymru, mae TraCC yn seilio ei ddull gweithredu ar y model anabledd cymdeithasol. Mae'r model cymdeithasol yn seiliedig ar y ffaith bod achosion o anfantais ac allgáu yn cael eu hachosi gan rwystrau o fewn cymdeithas ac nid oherwydd nam unigolyn.

Mae defnyddwyr y system drafnidiaeth yn profi nifer o anawsterau gwahanol, ac mae rhai ohonynt yn debyg i'r grwpiau cydraddoldeb amrywiol, ond mae eraill yn benodol i grwpiau penodol. Wrth baratoi'r ddogfen hon, cyfeiriwyd at y sylfaen dystiolaeth yn Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol er mwyn gwneud y defnydd gorau o grynodedd presennol o ymchwil sydd ar gael. Mae TraCC hefyd wedi adolygu'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gynhyrchwyd eisoes gan Sewta a SWWITCH ac mae wedi defnyddio strwythur tebyg, pan fydd hynny'n briodol, i ddogfennau consortia eraill.

Lluniwyd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn rhoi trosolwg o grwpiau cydraddoldeb, nodi nodweddion Canolbarth Cymru mewn cysylltiad â'r grwpiau hyn ac yna asesu'r effaith ar grwpiau cydraddoldeb yn unol â strwythur y CTRh, gan asesu effaith y Weledigaeth, Blaenoriaethau Rhanbarthol ac amcanion.

1.2 Grwpiau Cydraddoldeb

Nodwyd y grwpiau cydraddoldeb canlynol am eu bod wedi profi anawsterau penodol wrth ddefnyddio'r system drafnidiaeth, gyda chrynodeb o'r problemau a gyflwynwyd yn Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol:

Grŵp Cydraddoldeb	Enghraifft o'r Anawsterau sy'n gysylltiedig â Thrafnidiaeth
Pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig	efallai y bydd angen gwybodaeth mewn iaith gymunedol ar berson o gymuned lleiafrifoedd ethnig.
Pobl ag anableddau	efallai y bydd person dall neu rhannol ddall yn cael anawsterau gyda chyfeiriadedd mewn cyfnewidfa trafndiaeth gyhoeddus; efallai y bydd defnyddiwr cadair olwyn yn cael anhawster i gyrraedd trên oherwydd diffyg lifft ar y plattform.
Pobl Hŷn	efallai y bydd person hŷn yn cael anhawster i ymweld â ffrind ar drên neu mewn tacsï oherwydd costau uchel (mae bysiau yn llai o broblem oherwydd tocynnau conesiynol). gallai diffyg cyfleusterau aros dan do ar gyfer bysiau a seddau atal person hŷn rhag teithio
Pobl ifanc	efallai nad yw gwasanaethau bysiau yn cysylltu â chyfleusterau coleg neu'n darparu gwasanaeth nos priodol ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol.
Rhieni / Gwarcheidwaid / Gofalwyr	efallai y bydd rhiant â phlentyn ifanc yn poeni am ddibynadwyedd amseroedd bysiau ac ynglŷn â chael lle digonol ar fws ar gyfer y pram.
Merched	efallai y bydd merched yn poeni am ddiogelwch personol wrth aros mewn safle bws neu mewn gorsaf wledig gyda'r nos.
Hunaniaeth Rywiol	efallai y bydd person trawsrywiol yn profi ymddygiad negyddol gan deithwyr eraill wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.
Pobl â chredoau crefyddol	efallai y bydd gwraig Foslemaidd sy'n gwisgo gorchudd yn teimlo'n anghyfforddus ar drafnidiaeth gyhoeddus ac efallai y byddant yn dymuno osgoi dangos eu hwyneb os bydd gyrrwr bws yn gofyn iddynt wneud hynny.

1.3 Nodweddion Canolbarth Cymru

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cwmpasu Canolbarth Cymru ac mae'n cynnwys Powys, Ceredigion a rhan o ardaloedd cyngor Gwynedd. Mae gan y rhanbarth gyfanswm poblogaeth o tua 235,295 ac mae'n ardal wledig yn bennaf gyda dim ond pum tref sydd â mwy na 5,000 o drigolion. Felly, mae'r problemau sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn wahanol i'r rhan fwyaf o ardaloedd trefol Cymru.

Mae'r ystadegau allweddol canlynol yn nodi y cyfrannau o bobl yn y grwpiau cydraddoldeb amrywiol yn rhanbarth TraCC:

- *Pobl anabl:* Mae Cyfrifiad 2001 yn datgan bod gan 20.6% (65,481) o bobl yn rhanbarth TraCC salwch cyfyngus hirdymor sy'n effeithio ar eu gweithgareddau bob dydd (nodyn: mae hyn yn cynnwys Gwynedd gyfan). Mae hyn yn is na'r 23.3% o bobl â salwch cyfyngus hirdymor yng Nghymru gyfan.
- *Pobl hŷn:* mae 24.5% (65,354) o bobl yn rhanbarth TraCC yn 64 neu'n hŷn (oedran pensiwn), sy'n sylweddol uwch na'r ffigur cenedlaethol o 21.9%.
- *Pobl iau:* mae 22.4% (59,856) o bobl yn rhanbarth TraCC o dan 16 oed, cyfran uwch

na'r ffigur cenedlaethol o 20.2%. Mae cyfanswm o 23.3% (62,276) rhwng 16 a 24 oed, cyfran uwch na'r ffigur cenedlaethol o 21.7%.

- *Rhieni / Gwarcheidwaid a Gofalwyr:* Yn ôl cyfrifiad 2001, o'r 83,933 o deuluoedd sy'n byw yn rhanbarthau TraCC, mae gan 25.1% (21,088) blant dibynnol, sy'n is na'r ffigur o 32.1% o deuluoedd yn genedlaethol. Mae yna 15,572 o gartrefi unig riant yn y rhanbarth. Mae cyfanswm o 33,176 (10.4%) o bobl yn darparu o leiaf un awr o ofal yr wythnos i rywun ar sail ddi-dâl, sy'n is na'r 11.7% sy'n darparu gofal ar lefel genedlaethol.
- *Cenedl:* Mae merched yn cynrychioli 51.3% o'r boblogaeth, a dynion yn cynrychioli 48.7%. Mae hyn yn debyg i'r ffigur ar gyfer Cymru sef 51.6% o ferched a 48.4% o ddynion.
- *Pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig:* Mae 1.1% (3,512) o boblogaeth rhanbarth TraCC yn dod o grwpiau Asiaidd, Du, Tsieineaidd neu grwpiau Eraill. Mae hyn yn is na ffigur cyffredinol Cymru, sef 2.1%. Dywedir bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cynrychioli 0.3% o boblogaeth Cymru (CLILC).
- *Pobl sy'n lesbiaid, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol:* Mae cyfrifiad 2001 yn dangos bod cyfanswm o 274 (0.11%) o bobl yn byw mewn cartrefi â chyplau o'r un rhyw, sy'n debyg i'r 0.12% o'r holl bobl 16 oed a throsodd sydd mewn cartrefi â chyplau o'r un rhyw yn genedlaethol.
- *Credoau Crefyddol:* Mae 1.1% o drigolion TraCC wedi datgan yn y Cyfrifiad bod ganddynt grefydd gwahanol i Gristnogaeth neu nad oes ganddynt unrhyw grefydd. Mae hyn yn cymharu ag 1.4% yn genedlaethol. Mae'r gyfran is na'r gyfran genedlaethol yn golygu bod pobl mewn hyd yn oed mwy o leiafrif nac mewn ardaloedd trefol a gallant fod yn profi mwy o anfantais.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, cynhaliodd TraCC raglen gynhwysfawr o ymgynghoriadau yn cynnwys grwpiau mynediad lleol, grwpiau defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus a'r cyhoedd. Mae'r CTRh yn nodi nifer o faterion a gall y pwyntiau canlynol gael mwy o effaith ar grwpiau cydraddoldeb na gweddill y boblogaeth:

- Mae patrymau nodweddiadol anheddau gwasgaredig rhanbarth TraCC yn cyflwyno problemau hygrychedd a mynediad i wasanaethau allweddol, ac felly mae mwy o ddibyniaeth ar geir preifat mewn ardaloedd o'r fath;
- Dangosir lefelau gwael iawn o hygrychedd i swyddi a gwasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Modelau Derbyn™ yn y rhanbarth, a'r ym Asesiadau Anghenion a gyhoeddwyd gan y Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y mae awdurdodau lleol cyfansoddol TraCC yn perthyn iddynt;
- Ceir ardaloedd â mynediad cyfyngedig i Fand Eang sylfaenol a darpariaeth TGCh arall, a bydd y galw am lled band uwch yn cynyddu, gan effeithio ar leoliadau busnesau a gallu pobl i weithio o'u cartrefi;
- Mae diffyg cyfleusterau mewn gorsafoedd rheilffordd yn cynnwys meysydd parcio, goleuadau, mynediad i bobl anabl a chyfnewidfeydd gyda gwasanaethau bysiau, llwybrau cerdded a beicio;
- Mae diffyg adnoddau yn awdurdodau TraCC i ddatblygu mentrau teithio cynaliadwy; a
- Mae problemau i gynnal gwasanaethau trafndiaeth cymunedol yn nhermau ariannu cymorth a datblygiad.

Yn ogystal, mae Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn nodi'n benodol bod pobl sy'n bwy mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru yn grŵp cydraddoldeb, gan nodi:

- Mewn arolwg a gynhaliwyd yn 2004, nad oedd 11 y cant o gartrefi yng Nghymru wledig yn berchen ar gerbyd modur ac nid oes cerbyd modur ar gael iddynt ei ddefnyddio.¹
- Yng Nghymru wledig, mae'r broblem o gyrraedd y gwaith yn rhwystro mwy o ferched na dynion (soniodd 10 y cant o ferched am hyn o gymharu â 6 y cant o ddynion), gyda merched sy'n byw mewn pentrefannau neu yng nghefn gwlad agored yn canfod bod trafndiaeth yn fwy o broblem na'r rhai sy'n byw mewn trefi neu bentrefi.²
- Mewn un astudiaeth, nodwyd trafndiaeth fel y prif anfantais o fyw mewn ardal wledig, ac roedd cost trafndiaeth gyhoeddus i'r rhai heb gar yn arwyddocaol, a gall ynysu ei hyn fod yn broblem iechyd.³

1.4 Arferion Teithio

Mae Arolwg Byw yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (2008) yn darparu cefndir defnyddiol i arferion teithio aelodau rhai o'r grwpiau cydraddoldebau, (a ddefnyddiwyd yn Asesiad Effaith Gydraddoldebau SEWTA), er y dylid nodi bod y ffigurau hyn ar gyfer Cymru gyfan. Yn ogystal, ym mis Chwefror 2011, fel rhan o'i waith monitro sylfaen, comisiynodd TraCC arolwg cyfsweliad ffôn o 1,000 o gartrefi yn rhanbarth TraCC. Yn ogystal â darparu gwybodaeth sylfaen, roedd hefyd yn cynnwys cwestiynau 'ymwybyddiaeth' a safbwyntiau ar flaenoriaethau gwariant trafndiaeth.

O'r ymatebwyr a gyfwelwyd yn arolwg TraCC, roedd 38.5% mewn cyflogaeth, 1.9% mewn addysg, 52.8% wedi ymddeol a 7.5% yn economaidd anweithgar (sâl/yn ddi-waith). Yn gyffredinol, o'r rhai sy'n gweithio, mae 67.5% o bobl yn gyrru i'w gwaith. Mae lefelau rhannu car yn isel iawn, ar 1% ac mae'r lefelau gweithio o gartref yn uchel, bron i 17%.

Mae Arolwg Byw yng Nghymru, a gyflawnwyd gan Sewta yn nodi:

- Mae dynion yn fwy tebygol o ddefnyddio eu car i gyrraedd eu gwaith (82% o gymharu â 76% o ferched) ac yn llai tebygol o gerdded (8% o gymharu â 17%) neu'n cymryd y bws (2% o gymharu â 6%). Fodd bynnag, mae dynion yn fwy tebygol o feicio, mynd ar y trê neu yrru beic modur i'r gwaith na merched;
- Mae 60% o bobl â salwch neu anabledau hirsefydlog yn gallu defnyddio car o gymharu â 80% o bobl eraill, ond maent yn llai na hanner tebygol o allu defnyddio mwy nac un car;
- Mae pobl â salwch neu anabledau hirsefydlog yn fwy tebygol o fod yn deithiwr mewn car na phobl eraill, 25% o gymharu ag 20%;
- Dywedodd mwy na 60 y cant o bobl anabl yng Nghymru eu bod yn cael anawsterau i fynd ar fws ac oddi ar fws yn 2000-4, a dywedodd mwy na 30 y cant o bobl anabl eu bod yn cael anawsterau i eistedd a chodi o'u sedd (er y cydnabyddir yn awr bod angen llawr isel ar bob bws newydd);
- Dywedodd 11% o ymatebwyr yn Arolwg Byw yng Nghymru nad oeddent yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus oherwydd rhesymau iechyd;

¹ White, S.D. ac eraill (2007), Coping with Access to Services. Adroddiad Ymchwil Rhif 12 Arsyllfa Wledig Cymru. Ar gael yn <http://www.walesruralobservatory.org.uk/eng/pub-e.html#NewR>

² Moles, K. (2007), Gender and Rural Wales Scoping Report. Aberystwyth: Arsyllfa Wledig Cymru.

³ Julie Hirst, 'The influence of rurality on the access to health services of women with young children living in poverty in the peak District National Park' (traethawd MSc 1996, heb ei gyhoeddi).

- Mae pobl dros 60 oed yn llawer mwy tebygol o fod wedi defnyddio'r bws yn y saith diwrnod diwethaf o gymharu â grwpiau oedran eraill. Roedd 24% o ddynion a 36% o ferched wedi gwneud hynny; ac
- Yn gyffredinol, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn fodlon â'u gwasanaeth bws na phobl iau; roedd 82% yn fodlon.

Yn ogystal, dywedir yn Arolwg Byw yng Nghymru bod gan 74% o ymatebwyr yng Nghymru sy'n 60 oed a hŷn gerdyn bws consesiynol (78% o ferched a 70% o ddynion). Fodd bynnag, gellir cymharu hyn â rhanbarth TraCC lle mae'r ffigurau'n amrywio o 57.8% ym Mhowys a 69.2% yng Ngheredigion a 73.3% yng Ngwynedd (cyhoeddwyd ffigurau 2009/10 gan yr awdurdodau lleol).

1.5 Asesiad Effaith

Mae'r adran hon yn asesu effaith Gweledigaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gyntaf a'r Blaenoriaethau ac Amcanion Rhanbarthol yn ail, ar y grwpiau cydraddoldeb amrywiol,

Asesu Gweledigaeth

Y weledigaeth ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC yw:

'Cynllunio a chyflenwi system drafnidiaeth integredig, mewn partneriaeth, yn rhanbarth TraCC sy'n hwyluso datblygu economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb i wasanaethau a chyfleoedd, sy'n cynnal ac yn gwella ansawdd bywyd cymunedol ac sy'n parchu'r amgylchedd'.

Mae'r weledigaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp cydraddoldeb drwy geisio sicrhau mynediad i bawb i wasanaethau a chyfleoedd. Yn ogystal, byddai cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedol hefyd yn helpu grwpiau sy'n rhan o'r gymuned.

Asesu Blaenoriaethau Rhanbarthol ac Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth

Mae'r CTRh yn cynnwys deg blaenoriaeth rhanbarthol sy'n ceisio cyflawni'r weledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth integredig a hygyrch. Mae gan bob un o'r deg blaenoriaeth hyn amcanion sy'n sefydlu'r dull gweithredu ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau.

Mae'r adran hon yn asesu effaith y Blaenoriaethau Rhanbarthol a'r 35 o amcanion ar bob un o'r grwpiau cydraddoldeb. Rhoddir disgrifaid o effaith pob un o'r Blaenoriaethau ar y grwpiau cydraddoldeb gwahanol.

Yn gryno, disgwylir i bob un o'r blaenoriaethau a'r amcanion fod yn fanteisiol i'r grwpiau cydraddoldeb, er y bydd rhai ohonynt yn cael mwy o effaith ar rai grwpiau nac eraill. Amlygir materion amrywiol hefyd y bydd angen eu hystyried wrth weithredu'r ymyriadau sy'n deillio o'r amcanion.

Tabl D.1: Aseu Effaith y Blaenoriaethau a'r Amcanion Rhanbarthol ar Grwpiau Cydraddoldeb

BLAENORIAETHAU AC AMCANION RHANBARTHOL	EFFAITH AR GRWPIAU CYDRADDOLDEB
<p>1. Lleihau'r galw i deithio.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cefnogi patrwm aneddiadau cynaliadwy, datblygu lleoliadau y gellir eu gwasanaethu gan ddulliau teithio yn y dull mwyaf cynaliadwy ac sy'n crynhoi cyfleusterau mewn lleoliadau hygyrch. ▪ Lleihau'r angen i gymudo a theithio sy'n gysylltiedig â busnes. ▪ Lleihau teithiau gyrrwr yn unig a hyd teithiau a wneir mewn car. ▪ Rheoli a lleihau'r angen i symud nwyddau. 	<p>Gallai crynhoi cyfleusterau mewn lleoliadau hygyrch fod yn fanteisiol i bob grŵp, ond yn arbennig y rhai sy'n dibynnu mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus – pobl ifanc, yr henoed a'r rhai heb gar. Mae annog pobl i rannu ceir a lleihau pellteroedd teithio yn helpu'r rhai heb fynediad i gar a gall fod yn gam cadarnhaol i'r rhai sy'n teimlo'n agored i niwed pan fyddant yn teithio ar eu pen eu hunain.</p>
<p>2. Lleihau effaith symudiad ar yr amgylchedd rhyngwladol a lleol a sicrhau'r lefelau uchaf o ddiogelwch i Safleoedd Ewropeaidd.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Lleihau'r lefel o CO₂ ac allyriadau eraill o drafnidiaeth. ▪ Lleihau effaith symudiadau traffig ar ganol trefi a phentrefi ac ardaloedd preswyl. ▪ Lleihau effaith gwelliannau a gwaith cynnal a chadw i'r seilwaith trafndiaeth ar y tirlun, bioamrywiaeth, adnoddau dŵr a threftadaeth. 	<p>Mae lleihau lefelau allyriadau o drafnidiaeth yn fanteisiol i bob grŵp oedran ond pan fydd allyriadau yn arwain at ansawdd aer gwael yn y rhanbarth (megis ar y gefnfordd drwy'r Drenwydd), gallai lleihau'r allyriadau helpu pobl ifanc, yr henoed neu'r rhai ag anabledau megis cyflyrau anadlol.</p> <p>Gallai lleihau effaith symudiadau traffig fod yn fanteisiol i bob grŵp ond yn arbennig y rhai sy'n cerdded neu'n beicio mewn cymunedau, megis plant sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol a'r henoed a phobl anabl sy'n ymweld â siopau neu wasanaethau lleol.</p>
<p>3. Gwella diogelwch i holl ddefnyddwyr trafndiaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo materion diogelwch ar y ffyrdd. ▪ Lleihau nifer a difrifoldeb damweiniau ac anafiadau/marwolaethau ar ffyrdd y rhanbarth. ▪ Sicrhau diogelwch y system trafndiaeth gyhoeddus a gwella barn defnyddwyr trafndiaeth ynglŷn â diogelwch teithio. 	<p>Dylai mynd i'r afael â diogelwch ar y ffyrdd helpu pob grŵp ond gallai fod yn arbennig o fanteisiol i blant sy'n cerdded a beicio a phobl ifanc sy'n fwy tebygol o ddefnyddio beiciau modur.</p> <p>Gallai sicrhau diogelwch y system trafndiaeth gyhoeddus a barn pobl am y system helpu'r rhai sy'n teimlo'n fwy agored i niwed - merched, y rhai â chredoau crefyddol penodol, pobl sy'n drawsrywiol.</p>
<p>4. Gwella hygyrchedd teithio i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau i bob sector o'r gymdeithas.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Darparu gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus sy'n galluogi lefelau priodol o fynediad i safleoedd cyflogfaeth, canolfannau siopa, gwasanaethau a chyfleusterau, yn ogystal â chyfleusterau hamdden. 	<p>Mae'r amcan hwn yn ceisio cynorthwyo pob grŵp mewn cymdeithas ac mae'n ceisio sicrhau'n benodol bod y gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn hygyrch i bawb. Ni cheir cyfeiriad at yr angen i sicrhau y gellir cyrraedd cyfleusterau addysg 16+ drwy drafnidiaeth gyhoeddus ond dylid ei ystyried er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad i addysg 16+.</p>

- Darparu lefelau priodol o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer a rhwng anheddau fel yr hyn a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru.
- Sicrhau bod gwasanaethau a chyfleuserau gwasanaethau trafndiaeth cyhoeddus a chymunedol ar gael i bobl â phroblemau symudedd, pobl hŷn a phobl â babanod a phlant ifanc.
- Darparu seilwaith newydd neu wella'r seilwaith presennol er mwyn cefnogi hygyrchedd i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau.

5. Gwella ansawdd ac integreiddiad y system drafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys rôl trafndiaeth gymunedol.

- Creu rhwydwaith bysiau craidd sefydlog ac integredig.
- Gwella a datblygu rhwydwaith rheilffordd rhanbarth TraCC er mwyn sicrhau'r lefelau uchaf o fanteision y rhwydwaith rheilffordd ar gyfer teithiau lleol a rhanbarthol.
- Datblygu rôl trafndiaeth gymunedol a'i hintegreiddiad fel math o drafnidiaeth gyhoeddus.
- Datblygu cyfleoedd gwybodaeth amser gwirioneddol a mathau eraill o dechnoleg sy'n gysylltiedig â symud.
- Darparu cyfleusterau gwell mewn cyfnewidfeydd ac integreiddiad gwell rhwng mathau gwahanol o deithio.

6. Darparu, hyrwyddo a gwella dulliau teithio cynaliadwy.

- Datblygu rhwydweithiau o ansawdd uchel sy'n cael eu cynnal yn dda, sy'n hwyluso teithiau beicio lleol a thraws-ffiniol.
- Sicrhau bod cyfleusterau ar gyfer beicwyr yn cael eu hymgorffori mewn lleoliadau allweddol megis cyfnewidfeydd trafndiaeth, lleoliadau cyhoeddus a chanol trefi.
- Sicrhau bod cyfleusterau cario ar gyfer beiciau yn cael eu darparu ar wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.

Dylai'r broses o ddatblygu'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus fod yn fanteisiol i bob grŵp, yn arbennig wrth eu hategu gan rôl trafndiaeth gymunedol sy'n cefnogi'r grwpiau mwyaf agored i niwed, sef yr henoed a phobl anabl.

Mae datblygu gwybodaeth amser gwirioneddol a thechnoleg arall yn bwysig er mwyn lleihau ansicrwydd ynglŷn â theithio a rhoi mwy o hyder. Dylid ystyried yr angen am fformatau amrywiol er mwyn sicrhau nad yw rhai grwpiau'n cael eu heithrio (er enghraifft dibynnu ar ffonau symudol i gael gwybodaeth amser gwirioneddol am fysiau, oherwydd gallai hyn fod yn anfanteisiol i drigolion hŷn a'r rhai yn y lleoliadau mwyaf gwledig lle mae derbyniad gwael i ffonau symudol).

Mae integreiddio dulliau trafndiaeth yn hollbwysig i bobl sydd angen cynllunio teithiau ac er mwyn iddynt gael hyder yn nibynadwyedd y daith, megis rhieni gyda phlant ifanc a'r henoed.

Bydd gwella dulliau teithio cynaliadwy yn fanteisiol i bawb ond yn arbennig i aelodau mwy egnïol o'r boblogaeth, yn hytrach nac i bobl anableddau. Fodd bynnag, wrth ddarparu cyfleusterau diogel a chyfleus dylid ystyried anghenion pobl mewn cadeiriau olwyn a rhieni gyda phlant mewn pramiau. Dylid hefyd ystyried diogelwch llwybrau mewn cymunedau yn nhermau goleuadau ac amlygrwydd eu lleoliad er mwyn i grwpiau pobl ifanc, merched a lleiafrifoedd ethnig deimlo'n ddiogel wrth eu defnyddio.

- Darparu llwybrau diogel a chyfleus i gerddwyr o fewn cymunedau.
- Hyrwyddo ac annog teithio drwy ddulliau nad ydynt yn fodurol.

7. Cynnal a gwella'r seilwaith trafndiaeth presennol (ffyrdd a rheilffyrdd).

- Cyflawni'r safonau gofynnol ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd craidd, rhanbarthol a sirol o ran lled, aliniad, cyfleoedd goddiweddyd a chyfleusterau ar ochr y ffordd.
- Cynnal a chadw ac uwchraddio rhwydweithiau ffyrdd a rheilffordd rhanbarth TraCC.

8. Sicrhau bod materion teithio a hygyrchedd yn cael eu hintegreiddio'n briodol mewn penderfyniadau a wneir ar ddefnyddio tir

- Diogelu hen lwybrau a thir rheilffordd ar gyfer mathau eraill o seilwaith trafndiaeth er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd posibl ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau newydd yn y dyfodol yn cael eu peryglu.
- Sicrhau bod penderfyniadau a wneir ar ddarparu gwasanaethau iechyd, addysg a chymorth yn ystyried lleoliad a'r gallu i deithio.
- Sicrhau bod materion sy'n ymwneud â theithio a hygyrchedd yn cael eu hadlewyrchu ym mholisiâu Cynlluniau Datblygu Lleol ac yn cael eu cyflwyno'n effeithiol yn y broses gynllunio.

9. Gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chysylltedd symudiadau'r holl ddulliau trafndiaeth o fewn a rhwng Canolbarth Cymru a rhanbarthau eraill Cymru a Lloegr

- Datblygu dulliau rheoli llwybrau er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o lwybrau priodol.
- Datblygu'r rhwydweithiau strategol (ffyrdd a rheilffordd) yn rhanbarth TraCC a chysylltiadau i ac o fewn rhanbarthau eraill.
- Gwella effeithlonrwydd symudiadau nwyddau.

10. Cyflenwi rhwydwaith teithio a thrafnidiaeth cydgysylltiedig ac integredig drwy waith partneriaeth effeithiol.

- Cydweithio gyda chyrrff trafndiaeth rhanbarthol cyfagos i sicrhau bod cysylltiadau traws-ffiniol yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwella.

Bydd effaith gwaith cynnal a chadw a gwelliannau da i'r seilwaith ffyrdd a rheilffordd yn fuddiol i bob grŵp, gan wneud teithiau yn fwy dibynadwy a chyfforddus.

Mae integreiddio materion defnydd tir a theithio a hygyrchedd yn hollbwysig i bob grŵp. Mae'n arbennig o bwysig i'r henoed a'r rhai ag anableddau, yn ogystal â merched/rhieni â phlant ifanc, bod gwasanaethau iechyd a chymorth wedi'u lleoli gan ystyried gallu pobl i deithio. Bydd lleoliad cyfleusterau addysg yn cael effaith benodol ar bobl ifanc sy'n 16+ ac nad ydynt yn gymwys i deithio ar drafnidiaeth ysgolion.

Mae cysylltiadau da i ranbarthau eraill Cymru a Lloegr yn debygol o fod yn fanteisiol i bob grŵp.

Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion rhanbarthol eraill a fydd o fudd i grwpiau cydraddoldeb, a drafodir uchod.

- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i gyflawni canlyniadau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- Datblygu proses waith effeithiol gyda gweithredwyr trafndiaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau trafndiaeth teithwyr a nwyddau yn diwallu anghenion symud y rhanbarth.

Atodiad Dd

Blaenoriaethau Trafnidiaeth Ranbarthol TraCC
(A Gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru Awst 2011)

Blaenoriaethau Trafnidiaeth Ranbarthol Arfaethedig TraCC, Awst 2011

Ffyrdd

Cefnffyrdd

- Adeiladu Ffordd Osgoi'r A483 Y Drenewydd;
- Cynllun Adeiladu Pont Newydd Pont Dyfi yr A487 (croesfan newydd a gwaith ail-alinio cysylltiedig i'r ffordd);
- Uwchraddio'r A487 rhwng Llanrhystud ac Aberystwyth;
- Rhaglen / pecyn gwelliannau diogelwch a chapasiti ar-lein yr A44 a'r A470; (lleoliadau penodol i'w nodi a'u cadarnhau);
- Ffordd osgoi Llanymynech-Pant A483;
- Israddio'r A487, Canol Tref Aberystwyth;
- Ffordd Osgoi / Ffordd Liniaru'r A470 / A483 Llanfair ym Muallt;
- Ffordd Osgoi / Ffordd Liniaru'r A470 Rhaeadr;
- Ffordd Osgoi'r A44/A4120 Llanbadarn (yn cynnwys cael gwared ar groesfan gysylltiedig).

Ffyrdd Sirol

- Cwblhau Cynllun Ffordd Gyswllt Ddeheuol yr A486 Ceredigion - adran Synod Inn i Post Bach;
- Gwelliannau diogelwch a chapasiti ar-lein yr A44 (Powys) (lleoliadau penodol i'w nodi a'u cadarnhau);
- Ffordd osgoi'r B4459 Pencader (Sir Gaerfyrddin).

Diogelwch

- Rhaglen/pecyn cael gwared ar groesfan, yn cynnwys:
 - A487/A483 Ffordd Llanidloes;
 - A4120 Llanbadarn, Aberystwyth.
- Rhaglen / pecyn o addysg, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau diogelwch ar y ffordd, wedi'u targedu ar gyfer:
 - Modurwyr hŷn;
 - Modurwyr iau;
 - Beicwyr modur;
 - Beicwyr.

Trafnidiaeth Integredig

- Pecyn / rhaglen o gyfnewidfeydd / canolfannau trafndiaeth teithwyr trefol a gwledig newydd neu well (a nodwyd yn Strategaeth Trafnidiaeth Teithwyr TraCC, 2011):
 - Cyfnewidfa Machynlleth;
 - Dolgellau;
 - Y Trallwng;
 - Gorsaf Bysiau'r Drenewydd.

- Rhaglen / pecyn o grantiau cyfalaf sydd ar gael i'r sector Trafnidiaeth Gymunedol (wedi'u blaenoriaethu yn ôl effeithiau strategol);
- Adeiladu safle Parcio a Theithio Newydd oddi ar yr A487 yn Fferm Frongoch, Penglais, Aberystwyth (caniatâd cynllunio wedi'i gadarnhau);
- Rhwydwaith Gwasanaeth TrawsCymru Gwell (Nifer y cerbydau a gwasanaethau):
 - X50 estyniad i Hwlfordd;
 - X94 Abermaw i Wrecsam/Caer;
 - X32 Aberystwyth i Fangor.
- Rhaglen / pecyn o welliannau i wybodaeth trafndiaeth i deithwyr:
 - Gwybodaeth am deithio ymlaen i gyrchfannau eraill mewn gorsafoedd / cyfnewidfeydd rheilffordd a bysiau;
 - Byrddau gwybodaeth am lwybrau a chyrchfannau yng nghanol trefi ac mewn atyniadau blaenllaw i ymwelwyr.
- Rhaglen / pecyn o wybodaeth a deunydd marchnata am deithio rhanbarthol.

Rheilffordd

- Gwelliannau i nifer y gwasanaethau:
 - Gwasanaeth Bob Awr i Deithwyr ar Brif Lein y Cambrian rhwng Aberystwyth a'r Amwythig (ymrwymiad Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru);
 - Gwasanaeth ychwanegol ar Lein Calon Cymru (ymrwymiad Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru);
- Rhaglen / pecyn o welliannau i orsafoedd presennol ar Lein y Cambrian a Lein Calon Cymru (cysylltu â blaenoriaethau buddsoddi Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd / Rhaglen Genedlaethol Estynedig ar gyfer Gwella Gorsafoedd) – mynediad, lleoedd parcio i geir a beiciau, cyfnewidfa gyda gwasanaethau bysiau
 - Aberystwyth;
 - Machynlleth (mynediad traws blatfform);
 - Caersws;
 - Llandrindod;
 - Y Drenewydd;
 - Y Trallwng.
- Adeiladu gorsafoedd rheilffordd newydd yn Bow Street (erbyn 2017) a Charno (erbyn 2020).

Cerdded a Beicio

- Rhaglen / pecyn o gysylltiadau cerdded a beicio lleol (cyswllt i lwybrau beicio Cenedlaethol Sustrans a llwybrau beicio Rhanbarthol TraCC, Llwybr Arfordir Cymru, llwybr Clawdd Offa a llwybrau troed/hawliau tramwy cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill);
- Adeiladu llwybr defnydd cymysg yr A489 (T) Penegoes i Fachynlleth;
- Rhaglen / pecyn o gyfleusterau parcio beicio diogel, o safon uchel mewn:
 - Ysgolion;
 - Colegau AB ac AU;
 - Ysbytai;
 - Swyddfeydd llywodraeth leol a chenedlaethol;
 - Gorsafoedd a chyfnewidfeydd trenau a bysiau;

- Cyrchfannau/atyniadau twristiaeth a hamdden pwysig – e.e. yr arfordir;
- Adeiladau cyhoeddus eraill – e.e. llyfrgelloedd, canolfannau hamdden.

Teithio Cynaliadwy

- Menter Canolfan Teithio Cynaliadwy'r Drenewydd (cyswllt i Ffordd Osgoi, gwelliannau i'r orsaf fysiau)
- Rhaglen / pecyn o weithgareddau cynllunio teithiau rhanbarthol a lleol – cyhoeddiadau, gweithgareddau marchnata a hyrwyddo.